Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gorllewin Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2025

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru a llywodraeth leol, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno**

Am yr adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 6

**Adroddiad manwl**

Beth yw maint yr her? 10

Beth sy'n effeithio ar lif effeithiol ac amserol cleifion allan o'r ysbyty? 17

Pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd? 27

Beth arall y gellir ei wneud? 33

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 36

Atodiad 2 – rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion 38

Atodiad 3 – perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng 41

Atodiad 4 – arosiadau am asesiadau gofal cymdeithasol a phecynnau gofal 47

Atodiad 5 – ymateb sefydliadol ar y cyd i'r argymhellion archwilio 50

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Pan ystyrir bod claf yn ddigon iach yn glinigol i adael yr ysbyty (y cyfeirir ato hefyd fel ffit yn glinigol) mae'n allweddol rhyddhau'r claf hwnnw'n amserol i'r lleoliad cywir ar gyfer ei anghenion parhaus. Mae symud cleifion yn amserol, yn effeithiol ac yn effeithlon allan o leoliad ysbyty acíwt yn dwyn manteision pwysig i ofal a phrofiad cleifion yn ogystal ag ar gyfer defnyddio adnoddau y GIG.

2 Pan fo'r broses o ryddhau yn cymryd mwy o amser nag y dylai, mae'n bosibl y bydd goblygiadau sylweddol i'r claf o ran ei adferiad, ei adsefydliad a'i annibyniaeth. Bydd achosion o oedi cyn rhyddhau hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer cleifion eraill sy'n dod i mewn i'r system gofal brys ac argyfwng[1] y mae arnynt angen gwely mewn ysbyty. Mae "llif" cleifion gwael yn creu tagfeydd yn y system sy'n cyfrannu at broblemau tra hysbys megis adrannau achosion brys gorlawn ac anallu i sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo'n amserol o ofal criwiau ambiwlansys.

3 Mae ein gwaith wedi ceisio archwilio a oes gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol. Nodwn y dull a fabwysiadwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 1**.

4 Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen ehangach o waith y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi bod yn ei wneud mewn cysylltiad â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru. Rydym hefyd wedi archwilio'r trefniadau sydd ar waith i helpu i reoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng, ac i gyfeirio cleifion at y lleoliad gofal sydd fwyaf priodol i'w hanghenion. Rydym wedi adrodd ar ganfyddiadau y gwaith hwnnw ar wahân.

5 Nod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar ofal brys a gofal mewn argyfwng yw helpu i gyflawni ei ddyletswydd statudol i fod yn fodlon bod gan gyrff y GIG ac awdurdodau lleol drefniadau priodol ar waith i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau i ategu llif effeithiol allan o'r ysbyty yn rhanbarth Gorllewin Cymru (y rhanbarth). Mae'r ardal yn cwmpasu:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd)
- Cyngor Sir Caerfyrddin

[1] Mae gofal brys a gofal mewn argyfwng yn disgrifio unrhyw ofal heb ei drefnu, brys ac argyfwng a ddarperir gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng yn gymhleth gyda nifer o sefydliadau'n rhan o ddarparu gwasanaethau ac mae'n ymdrin â phobl sydd ag afiechyd acíwt, sy'n agored i niwed ac mewn gofid y mae arnynt angen cymorth brys.

- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Penfro.

7 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym hefyd wedi ystyried y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o'i gymharu ag argymhellion blaenorol a wnaed yn ein hadroddiad yn 2017 ar gynllunio i ryddhau cleifion. Nodir ein canfyddiadau o'r gwaith hwn mewn adroddiad ar wahân i'r Bwrdd Iechyd.

# Canfyddiadau allweddol

8 Ar y cyfan, canfuom er bod **llif cleifion yn agwedd allweddol ar gynlluniau ar draws partneriaid, fod niferoedd uchel o oediadau cyn rhyddhau cleifion yn parhau i effeithio'n negyddol ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan gynnwys trosglwyddiadau ambiwlans ac amseroedd aros mewn adrannau achosion brys. Mae cymhlethdod cynyddol yn y galw, cyfyngiadau capasiti, a gwendidau yn y broses cynllunio i ryddhau cleifion i gyd yn rhwystrau allweddol i lif cleifion mwy effeithiol. Mae partneriaid yn deall yr angen i sbarduno gwelliannau, ond mae angen gweithredu'n fwy i sicrhau'r gwelliannau cynaliadwy y mae eu hangen.**

9 Yn unol â thueddiadau ledled Cymru, mae nifer y cleifion sy'n profi oediadau cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn rhanbarth Gorllewin Cymru wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Ebrill 2025, roedd 221 o gleifion bob mis ar gyfartaledd a oedd yn ffit yn glinigol a brofai oediadau cyn cael eu rhyddhau, sef un o'r cyfraddau oedi cyn rhyddhau cleifion uchaf yng Nghymru. Er bod cwblhau asesiadau gofal cymdeithasol wedi bod yn brif achos dros oedi cyn rhyddhau cleifion, mynediad at ofal cartref a chwblhau asesiadau nyrsio yw'r prif achosion bellach. Roedd cyfanswm y diwrnodau gwelyau a gollwyd wrth oedi cyn rhyddhau cleifion ym mlwyddyn ariannol 2024-25 yn cyfateb i 55,482 a chost gysylltiedig o £27.7 miliwn ar gyfer blwyddyn gron.

10 Mae oediadau cyn rhyddhau cleifion yn cael effaith ganlyniadol ar drosglwyddiadau ambiwlans ac amseroedd aros ar gyfer adrannau achosion brys, ac mae'r perfformiad yn disgyn yn llawer is na'r targedau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu lleihau effaith yr oediadau cyn rhyddhau cleifion ar ofal a gynlluniwyd.

11 Mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at oediadau cyn rhyddhau cleifion. Mae natur y galw yn cynyddu, gan gynnwys nifer y bobl y mae angen cymorth arnynt ar gyfer cyflyrau cymhleth megis dementia. Mae heriau y gweithlu yn risg sylweddol sy'n effeithio ar y nod o gwblhau asesiadau nyrsio a gofal cymdeithasol yn amserol, a than yn ddiweddar, yr arosiadau am asesiad gofal cymdeithasol yn Sir Benfro oedd yr uchaf yng Nghymru. Mae capasiti y sector gofal yn effeithio ar oediadau hefyd. Er bod y ddarpariaeth cartrefi gofal yn fwy yn y Gorllewin na'r rhan fwyaf o rannau eraill o Gymru, mae prinder o ran gofal cartref, yn enwedig yng Ngheredigion a gofal ailalluogi yn Sir Gaerfyrddin. Ar adeg ein gwaith, nid oedd gan y Bwrdd Iechyd bolisi rhyddhau cleifion safonol ac mae hyfforddiant rhyddhau cleifion

anghyson wedi arwain at wendidau yn y ddogfennaeth ac wrth gymhwyso'r broses o ryddhau cleifion. Mae anawsterau wrth gyfathrebu a rhannu gwybodaeth berthnasol ar draws ffiniau sefydliadol a safleoedd yn gwaethygu oediadau hefyd.

12 Mae mynd i'r afael â'r llif cleifion yn nodwedd allweddol o'r cynlluniau ar draws yr holl bartneriaid rhanbarthol, ac mae cysylltiadau clir â Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Llywodraeth Cymru, ond nid yw'r broses o droi Cynllun Ardal Gorllewin Cymru yn gyflawniad gweithredol wedi ei datblygu yn ddigonol. Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i wella'r llif cleifion, er bod cyllid tymor byr yn peryglu cyfranogiad y trydydd sector a gall pwysau y system greu diwylliant o fwrw bai nad yw'n fuddiol. Mae strwythur gweithredol blaenorol y Bwrdd Iechyd wedi effeithio ar atebolrwydd a'r nod o wella'r llif cleifion, ond mae strwythurau clir ar waith bellach er nad yw'r Grŵp Strategol Integredig sy'n goruchwylio gofal brys a gofal mewn argyfwng wedi cwrdd eto.

13 Mae partneriaid yn defnyddio adnoddau ariannol i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; fodd bynnag, nid yw'n glir sut y bydd prosiectau llwyddiannus a ariennir gan arian ychwanegol yn cael eu prif ffrydio i gyllidebau sylfaenol ac yn dod yn gynaliadwy yn y dyfodol. Cymysg yw'r oruchwyliaeth a'r gwaith craffu corfforaethol ar weithgareddau a gynhelir i wella'r llif cleifion, gyda llawer mwy o oruchwyliaeth yn y Bwrdd Iechyd o'i gymharu ag awdurdodau lleol ac mae lle i wneud gwell defnydd o ganlyniadau wrth ddangos yr effaith.

14 Er bod partneriaid yn deall yr angen i sbarduno gwelliannau ac wedi dangos bwriad a rhywfaint o weithredoedd da hyd yma, nid yw nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau ledled y rhanbarth wedi lleihau'n sylweddol. Mae angen parhau i weithredu ar draws amrywiaeth o feysydd er mwyn sicrhau'r gwelliannau cynaliadwy sy'n angenrheidiol i gleifion, eu teuluoedd, a'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng ehangach.

# Argymhellion

15 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Bydd yr ymateb rheoli cyfun gan y cyrff statudol a gynhwysir yn yr adolygiad hwn i'r argymhellion hyn yn cael ei grynhoi yn **Atodiad 5** ar ôl i'r pwyllgorau perthnasol yn eu hystyried.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Rheoli'r galw** |

**Argymhellion**

A1 Er mwyn sicrhau mai dim ond y rhai y mae angen gwasanaeth arnynt sydd ar y rhestrau aros perthnasol, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw ei staff yn rhoi cleifion heblaw'r rhestr aros sy'n berthnasol i'w hanghenion gofal penodol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, yn hytrach na'u rhoi ar sawl rhestr aros wahanol fel modd o sicrhau eu bod yn cael eu rhyddhau yn gynharach (paragraff 38).

**Cynllunio ar gyfer y galw cyfredol a'r galw yn y dyfodol**

A2 Er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol a gweithredol ar lefel ranbarthol, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol ddatblygu set ddata y gellir ei defnyddio sy'n cipio gwybodaeth am swm a chymhlethdod y galw ar y system gyfan ledled y rhanbarth (paragraff 45).

**Mynd i'r afael â bylchau allweddol mewn capasiti**

A3 Fel y gellir rhyddhau cleifion i'w cartrefi eu hunain mewn modd mwy amserol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu atebion ar y cyd i fynd i'r afael â bylchau allweddol yng nghapasiti y gwasanaeth, yn benodol, gofal cartref a gwasanaethau ailalluogi (paragraff 62).

A4 Er mwyn sicrhau y defnyddir adnoddau cyfyngedig yn effeithiol, dylai Cyngor Sir Ceredigion sicrhau bod yr oriau sy'n uwch na'r cyfartaledd a ddarperir fesul oedolyn sy'n derbyn gofal cartref yn briodol i'w hanghenion (paragraff 65)

**Datblygu ac ymgorffori polisïau**

A5 Er mwyn ymgorffori dull cyson o gynllunio i ryddhau cleifion, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau ar waith i gyfleu canllawiau cynllunio i ryddhau i'r holl staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio dros dro. Dylai'r broses o gyflwyno canllawiau gael ei chefnogi gan raglen hyfforddiant gloywi parhaus a hyfforddiant cynefino ar gyfer staff newydd (paragraff 69).

A6 Er mwyn rhoi eglurder i'r holl staff ynghylch sut y dylai'r broses atgyfeirio am ofal cymdeithasol weithio ledled y rhanbarth, dylai'r Bwrdd Iechyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, sicrhau bod y canllawiau newydd ar gynllunio i ryddhau cleifion yn nodi'n glir ar ba gam o'r broses cynllunio i ryddhau y dylid gwneud atgyfeiriadau am ofal cymdeithasol (paragraff 73).

**Gwella ansawdd y broses o gadw cofnodion**

**Argymhellion**

A7 Er mwyn gwella ansawdd yr wybodaeth a gynhwysir mewn nodiadau achos cleifion, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion yn deall yn llwyr bwysigrwydd dogfennu gwybodaeth yn gynhwysfawr mewn nodiadau achos cleifion, a dylai hefyd weithredu rhaglen o archwiliadau nodiadau achos sy'n canolbwyntio ar ansawdd y broses o gadw cofnodion (paragraff 70).

**Gwella rowndiau ward amlddisgyblaethol**

A8 Er mwyn annog atebion cydweithredol i'r prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a rhannu data, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod gweithwyr proffesiynol perthnasol o bartneriaid allweddol, sy'n gallu rhannu gwybodaeth a galluogi cleifion i gael eu rhyddhau yn effeithlon, yn bresennol ar rowndiau ward amlddisgyblaethol perthnasol ym mhob safle ysbyty acíwt, fel sy'n digwydd yn Ysbyty Glangwili. Gallai hyn gynnwys ffisiotherapyddion, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, gofal ac atgyweirio neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill (paragraff 79).

**Gwella ansawdd atgyfeiriadau am ofal cymdeithasol**

A9 Er mwyn galluogi gweithwyr cymdeithasol i frysbennu cleifion yn effeithiol yn ystod y cam atgyfeirio, dylai'r Bwrdd Iechyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, wella cyflawnrwydd yr atgyfeiriadau am ofal cymdeithasol gan staff y ward (paragraff 80)

**Gwella'r broses o rannu gwybodaeth**

A10 Er mwyn sicrhau y rhennir gwybodaeth yn effeithiol, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol weithredu ffyrdd o rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau, gan gynnwys cyfleoedd i ddarparu mynediad amlasiantaethol at fynediad presennol at systemau sefydliadol ac yn y pen draw atebion TG ar y cyd (paragraff 81).

A11 Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws safleoedd ysbyty acíwt, dylai'r Bwrdd Iechyd gymhwyso dull safonol o gofnodi gwybodaeth am ryddhau cleifion ar wardiau ysbyty, gan ddefnyddio atebion digidol (paragraff 82).

A12 Er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau yn gynharach â chymorth gan wasanaethau y tu hwnt i ofal cymdeithasol yn cael eu colli, dylai'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol sicrhau bod gan yr holl staff perthnasol ar draws pob sefydliad fynediad rheolaidd at yr wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned sy'n cefnogi'r nod o ryddhau cleifion o'r ysbyty (paragraff 83).

**Argymhellion**

**Datblygu cynlluniau gweithredu Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2023-28**

A13 Er mwyn cryfhau'r broses o gyflawni amcanion cynllunio tymor canolig, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod y cynlluniau gweithredu sy'n tanategu Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2023-28 wedi eu datblygu'n llawn a'u bod yn gyfredol (paragraff 89)

**Gwella gwaith craffu**

A14 Er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddangos yr effaith, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni o'i gymharu â'r Rhaglen Chwe Nod yn cynnwys y canlyniadau disgwyliedig (paragraff 110).

A15 Er mwyn cryfhau'r gwaith craffu a'r oruchwyliaeth, dylai'r awdurdodau lleol sicrhau bod y pwyllgor mwyaf priodol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am weithgareddau y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gysylltiedig â'r llif cleifion (paragraff 111).

# Adroddiad Manwl

## Beth yw maint yr her?

16 Mae'r adran hon yn nodi maint yr her y mae'r rhanbarth yn ei hwynebu mewn cysylltiad ag oedi cyn rhyddhau cleifion a'r effaith ddilynol ar lif cleifion a phrofiad cleifion.

17 Canfuom fod **gan y rhanbarth rai o'r cyfraddau oedi cyn rhyddhau cleifion uchaf yng Nghymru. Mae hyn yn effeithio ar y llif cleifion drwy'r adran achosion brys ac wrth eu rhyddhau o ambiwlansys. Aros am becynnau gofal cymunedol newydd ac asesiadau nyrsio yw'r prif achosion dros oedi cyn rhyddhau cleifion ledled y rhanbarth bellach.**


### Oediadau cyn rhyddhau cleifion

18 Canfuom fod **nifer sylweddol o gleifion nad ydynt yn gadael ysbyty mewn ffordd brydlon pan fyddant yn ddigon da i wneud hynny, ac mai arosiadau am becynnau gofal cymunedol newydd ac am gwblhau asesiadau nyrsio yw'r prif achosion dros oedi.**

19 Mae oediadau cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty wedi bod yn broblem hirsefydlog i gyrff yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU. Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod y mater hwn wedi gwaethygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

20 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi cyfradd yr oediadau cyn rhyddhau cleifion yn y Bwrdd Iechyd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Ebrill 2025, o'i gymharu â byrddau iechyd eraill ledled Cymru. Maent yn ymwneud â chleifion yr ystyrir eu bod yn ffit yn feddygol, ond sy'n aros mewn gwely ysbyty 48 awr ar ôl i'r timau clinigol benderfynu eu bod yn ddigon da i adael yr ysbyty. Hyd at fis Mehefin 2024, roedd cyfradd yr oediadau cyn rhyddhau yn un o'r uchaf yng Nghymru, ond gostyngodd y cyfraddau i gyfartaledd Cymru gyfan tan fis Medi 2024. Mae'r cyfraddau wedi cynyddu ers hynny ac erbyn hyn maent yr uchaf ond un yng Nghymru.

**Arddangosyn 2: nifer yr oediadau cyn rhyddhau cleifion fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth (Ebrill 2023 – Ebrill 2025)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

21 Ers y pandemig, mae'r ffordd y mae cyrff y GIG yn cyfrif nifer y cleifion yr oedir cyn eu rhyddhau wedi newid. Ni adroddodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol am oediadau cyn rhyddhau cleifion rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2023. Cyn y pandemig, adroddwyd nifer yr oediadau cyn rhyddhau cleifion fel 'oedi wrth drosglwyddo gofal'. Cleifion oedd y rhain a barhaodd i feddiannu gwely ar ôl y dyddiad y datganodd timau clinigol eu bod yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf o'u gofal. Mae hyn yn cymharu â'r dull presennol o gyfrif oediadau cyn rhyddhau cleifion sy'n canolbwyntio ar gleifion sy'n aros mewn gwely ysbyty 48 awr ar ôl i'r timau clinigol eu nodi fel rhai sy'n ffit yn feddygol.

22 Er nad yw'n gymhariaeth uniongyrchol, ym mis Chwefror 2020 adroddodd y Bwrdd Iechyd 65 o oediadau wrth drosglwyddo gofal. Sefyllfa diwedd mis Ebrill 2025 yw 223 o oediadau cyn rhyddhau cleifion sy'n cyfateb i 22.0% o gyfanswm capasiti gwelyau y Bwrdd Iechyd[2]. Dyma'r uchaf ond un yng Nghymru o'i chymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef 15.4% (gan amrywio rhwng 8.6% a 29.6%).

[2] Yn seiliedig ar ddata am y gwelyau cyffredinol ac acíwt a oedd ar gael ym mis Gorffennaf 2023, gwefan StatsCymru (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Activity/NHS-Beds/nhsbeds-by-organisation-site)

23 Mae’r rhesymau dros oedi wedi eu categoreiddio. Nodir y pum prif reswm dros oediadau cyn rhyddhau cleifion yn **Arddangosyn 3**, a’r rhesymau mwyaf cyffredin yw aros am ddechrau pecynnau gofal cymunedol newydd ac am asesiadau nyrsio i gael eu cwblhau. Hyd at fis Ionawr 2025, y prif reswm dros oedi oedd disgwyl am asesiadau gofal cymdeithasol i gael eu cwblhau. Ceir rhestr lawn o’r rhesymau dros oediadau yn y Bwrdd Iechyd, a fesul awdurdod lleol, yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 3: pum prif reswm dros oediadau cyn rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd o’u cymharu â sefyllfa Cymru (Ebrill 2025)**

| Rheswm dros oedi | Y ganran a oedwyd | Cyfartaledd Cymru |
|---|---:|---:|
| Aros am ddechrau pecyn gofal cymunedol newydd a ariennir gan ofal cymdeithasol | 15.8 | 9.8 |
| Aros am gwblhau’r asesiad nyrsio | 10.4 | 7.1 |
| Aros am asesiad gofal iechyd parhaus | 8.6 | 3.1 |
| Aros am i’r tîm gofal cymdeithasol gwblhau asesiad | 8.1 | 11.6 |
| Aros am i weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd gwblhau asesiad | 6.8 | 4.7 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

24 O’i dadansoddi fesul awdurdod lleol, mae cyfradd yr oediadau cyn rhyddhau cleifion fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth yn uwch na chyfartaledd Cymru yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae Ceredigion ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Y cyfraddau yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yw’r uchaf ond un a’r uchaf ond tair yng Nghymru, sef 76.4 a 70.2 yn y drefn honno (o’u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 54.6). Aros am gwblhau asesiad nyrsio yw’r achos mwyaf dros oedi yng Ngheredigion a Sir Benfro, ac aros am ddechrau pecyn gofal cymunedol newydd a ariennir gan ofal cymdeithasol yw’r achos mwyaf dros oedi yn Sir Gaerfyrddin.

25 Ar sail data a adroddwyd ym mis Medi 2025, roedd cyfanswm y cleifion yr oedwyd cyn eu rhyddhau yn cyfrif am 4,511 o ddiwrnodau gwelyau. Yn seiliedig ar gost nodweddiadol fesul diwrnod gwely[3], mae hyn yn cyfateb i gostau o oddeutu £2.256 miliwn am y mis. Roedd cyfanswm y diwrnodau gwelyau a gollwyd wrth oedi cyn rhyddhau cleifion ym mlwyddyn ariannol 2024-25 yn cyfateb i 55,482 a chost gysylltiedig o £27.741 miliwn am flwyddyn gron. O ystyried y pwysau ariannol sy’n wynebu’r sector cyhoeddus, mae hyn yn swm sylweddol o adnoddau GIG na

[3] Ar sail £500 fesul diwrnod gwely fel y nodir yn Briefing: Minister for Finance and Local Government statement on the 2023-24 financial position Conffederasiwn y GIG

ddefnyddir cystal â phosibl ac y dylid eu defnyddio mewn ffyrdd eraill i fodloni galw arall yn y system.

## Effaith ar y llif cleifion

26 Canfuom fod **oedi cyn rhyddhau cleifion yn cael effaith ehangach ar y llif cleifion gyda sgil-effeithiau ar drosglwyddiadau ambiwlans ac amseroedd aros mewn adrannau achosion brys, er bod gofal a gynlluniwyd yn cael ei ddiogelu i raddau helaeth.**

27 Mae oediadau cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn arwain at ganlyniadau o ran llif cleifion ac yn benodol y gallu i gleifion gael mynediad at wasanaethau pan fydd eu hangen arnynt. Mae gwelyau a feddiennir gan gleifion nad ydynt eu hangen mwyach yn golygu nad ydynt ar gael i'r rhai sydd eu hangen gan arwain, er enghraifft, at arosiadau hirach mewn adrannau achosion brys. Mae hyn yn ei dro yn effeithio ar allu criwiau ambiwlans i drosglwyddo cleifion ac i ymateb i alwadau 999 yn y gymuned.

28 Mae **Atodiad 3** yn nodi perfformiad y rhanbarth ar draws amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng o'u cymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Ebrill 2022. Yn gryno:

- mae canran y galwadau ambiwlans coch a ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud wedi gwella'n raddol a dros y misoedd diwethaf wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef oddeutu 50%, er ei bod yn parhau i fod yn llai na'r targed cenedlaethol, sef 65% (**Arddangosyn 15**)
- mae'r amser ymateb canolrifol ar gyfer galwadau oren yn unol yn fras â chyfartaledd Cymru, er bod amseroedd ymateb yn parhau i fod yn llai na'r targed cenedlaethol o 20 munud (**Arddangosyn 16**)
- mae canran y trosglwyddiadau ambiwlans o fewn 15 munud ym mhrif adrannau achosion brys y Bwrdd Iechyd wedi bod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru yn gyffredinol ac eithrio Ysbyty Llwynhelyg. Mae'r perfformiad yn parhau i fod yn llawer is na'r targed cenedlaethol (**Arddangosyn 17**)
- yn gyffredinol, mae canran y trosglwyddiadau ambiwlans dros awr wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru, gan amrywio rhwng 35% a 64%, o'u cymharu â tharged cenedlaethol o sero[4], (**Arddangosyn 18**)
- mae cyfanswm yr oriau a gollwyd yn dilyn hysbysiad i drosglwyddo sydd dros 15 munud yn unol yn fras â chyfartaledd Cymru, gan ostwng i 2,200 awr ym mis Awst 2024 (**Arddangosyn 19**)

[4] Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y targed i beidio â chymryd mwy nag awr i drosglwyddo cleifion fel metrig ychwanegol o fewn fframwaith cynllunio y GIG yn 2023-24 yn rhan o'r gwaith i geisio lleihau'r duedd gynyddol o golli oriau.

- pan fo'r claf yn yr adran achosion brys, mae'r amser canolrifol rhwng cyrraedd a brysbennu wedi bod yn hwy na chyfartaledd Cymru, gan amrywio rhwng 23 a 33 munud (**Arddangosyn 20**)
- cyrhaeddodd yr amser canolrifol rhwng cyrraedd a chael asesiad gan uwch-wneuthurwr penderfyniadau clinigol ei frig ar ychydig dros awr a hanner ym mis Mehefin 2024 ac ers hynny mae wedi bod yn amrywio rhwng awr ac awr a hanner. Roedd perfformiad wedi bod yn llawer gwell na'r cyfartaledd yng Nghymru tan y misoedd diwethaf (**Arddangosyn 21**)
- Mae canran y cleifion sy'n treulio llai na phedair awr mewn adran achosion brys mawr yn unol â chyfartaledd Cymru. Mae'r perfformiad yn amrywio ar draws y tri safle ysbyty, gan fod yn well yn Ysbyty Bronglais, ac yn waeth yn Ysbyty Glangwili (**Arddangosyn 22**)
- mae canran y cleifion sy'n treulio llai na 12 awr mewn adran achosion brys hefyd yn unol yn fras â chyfartaledd Cymru, gan fod yn well yn Ysbyty Bronglais, ac yn waeth yn Ysbyty Llwynhelyg (**Arddangosyn 23**)
- mae cyfran y diwrnodau gwelyau a gronnir gan gleifion sy'n aros yn hwy nag 21 yn gwella ac mae bellach ychydig yn is na chyfartaledd Cymru **(Arddangosyn 24)**. Pwysleisiodd ein hadolygiad o sampl o dderbyniadau meddygol brys y Bwrdd Iechyd fod hyd yr arhosiad cyfartalog yn hwy yn safleoedd acíwt Sir Gaerfyrddin (61 diwrnod yn Ysbyty Glangwili, ac 81 diwrnod yn Ysbyty'r Tywysog Philip), o'u cymharu ag Ysbytai Bronglais a Llwynhelyg ar 45 diwrnod a 44 diwrnod yn y drefn honno.

29 Mae cyfanswm capasiti gwelyau y Bwrdd Iechyd wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf, ac roedd 1,175 o welyau ar gael yn 2023-24. Mae bron i ddwy ran o dair o welyau y Bwrdd Iechyd wedi eu dyrannu i feddyginiaeth acíwt (708). Mae nifer y gwelyau sydd wedi eu dyrannu i feddyginiaeth acíwt wedi cynyddu o 577 o welyau yn 2012-13. Cyfradd defnydd y gwelyau meddygaeth acíwt oedd 87%, o'i chymharu â'r lefel gorau posibl o 85%. Mae hyn yn cynyddu i 91% yng Nglangwili a 94% yn Ysbyty Llwynhelyg.

30 Mae'r Bwrdd Iechyd yn un o bedwar bwrdd iechyd sydd â gwelyau ysbyty cymunedol. Mae'r gwelyau hyn yn darparu cyfleusterau cam-i-lawr ar gyfer cleifion nad oes angen gofal acíwt arnynt fwyach. Mae nifer y gwelyau sydd ar gael yn y Bwrdd Iechyd wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2016-17 a 2022-23 ar oddeutu 90 o welyau. Fodd bynnag, mae lefelau meddiannu wedi amrywio'n sylweddol rhwng safleoedd ysbytai, gan amrywio rhwng 23% yn Ysbyty Dyffryn Aman a 99% yn Ysbyty De Sir Benfro yn 2022-23. Cynyddodd nifer y gwelyau yn Ysbyty De Sir Benfro dros dro yn ystod 2023-24 yn sgil darganfod concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth yn Ysbyty Llwynhelyg[5]. Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd y

[5] Ym mis Awst 2023, darganfuwyd concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth yn Ysbyty Llwynhelyg a arweiniodd at gau chwe ward dros dro, ac ailgyflunio Ysbyty De Sir Benfro i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau. Cafodd yr holl wardiau yr effeithiwyd arnynt yn Ysbyty Llwynhelyg eu hailagor erbyn mis Mawrth 2024.

Bwrdd Iechyd y byddai'r gwelyau yn Ysbyty Tregaron yn cau, gan leihau cyfanswm y gwelyau cymunedol i 78.

31 Mae pwysau o ran nifer y gwelyau sydd ar gael oherwydd oediadau cyn rhyddhau cleifion yn golygu nad yw byrddau iechyd bob amser yn gallu sicrhau bod cleifion yn cael eu rhoi ar y wardiau gorau ar gyfer eu hanghenion clinigol. Er enghraifft, bydd byrddau iechyd yn arfer dal gwelyau gwag ar unedau strôc er mwyn sicrhau bod cleifion strôc yn cael mynediad cyflym ac uniongyrchol, gan eu galluogi i gael mynediad at arbenigwyr ac offer strôc. Mae byrddau iechyd wedi profi trafferthion cynyddol wrth dderbyn cleifion strôc i ward strôc oherwydd bod problemau gyda'r llif cleifion a'r gwelyau sydd ar gael yn golygu bod angen y gwelyau hyn ar gleifion nad ydynt yn gleifion strôc. Er bod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn un o'r goreuon yng Nghymru, yn nodweddiadol, dim ond hanner y cleifion strôc sy'n cael eu derbyn yn uniongyrchol i uned strôc o fewn y targed o bedair awr.

32 Gall llif cleifion gwael effeithio hefyd ar ofal a drefnwyd (neu a gynlluniwyd), oherwydd bod cleifion a chanddynt weithdrefnau sydd wedi eu trefnu yn gweld eu derbyniadau yn cael eu canslo fwyfwy oherwydd y diffyg gwelyau sydd ar gael. Mae hyn yn brofiad gwael i gleifion ac mae risg y bydd cyflyrau cleifion gofal a gynlluniwyd yn gwaethygu ymhellach wrth iddynt aros i'w triniaeth gael ei haildrefnu.

33 Fodd bynnag, mae nifer y cansladau yn y Bwrdd Iechyd oherwydd bod diffyg gwelyau ar gael yn un o'r isaf yng Nghymru. Mae'r nifer wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf hefyd. Yn ystod 2024-25, canslwyd 91 o gleifion, o'u cymharu â 150 o gleifion yn 2022-23[6]. Mae cansladau yn ystod mis Rhagfyr a mis Ionawr wedi gwella hefyd, gan leihau o 110 ym mis Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023, i 20 o gleifion a ganslwyd yn ystod mis Rhagfyr 2024 a mis Ionawr 2025.

## Diwallu anghenion cleifion

34 Canfuom fod **oediadau cyn rhyddhau cleifion yn cyflwyno risgiau i lesiant corfforol a meddyliol cleifion.**

35 Gall y pwysau i ryddhau cleifion a'r diffyg dewisiadau gofal sydd ar gael arwain at gleifion yn cael eu rhyddhau i leoliadau nad ydynt bob amser y rhai mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion, gan gynnwys eu rhyddhau:

- adref cyn bod pecyn gofal priodol ar waith
- i gartref gofal preswyl pan allent fod wedi mynd adref â phecyn cymorth
- i gartref gofal preswyl dros dro i aros nes bod lleoliad tymor hwy ar gael
- i wely ysbyty cymunedol i aros nes bod pecyn gofal ar gael
- i leoliad sy'n bell oddi wrth deulu a chyfeillion.

[6] Effeithiodd y concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth a ddarganfuwyd yn Ysbyty Llwynhelyg ym mis Awst 2023 ar nifer y cansladau oherwydd nad oedd gwelyau digonol ar gael yn 2023-24.


36 Gall cleifion yr oedir cyn eu rhyddhau o’r ysbyty ddatgyflyru, bod mewn mwy o berygl o brofi anaf o ganlyniad i gwymp neu ddal haint a all waethygu eu hanghenion gofal, estyn eu harhosiad yn yr ysbyty gan eu gwneud yn fwy agored i gael eu haildderbyn i’r ysbyty ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

37 Yn y rhanbarth, mae effaith oediadau ar brofiad cleifion yn rhywbeth y mae’r staff yn ymwybodol iawn ohoni. Gwelsom y risgiau sy’n gysylltiedig â chleifion yn aros yn hwy nag sydd ei angen yn yr ysbyty, megis ddatgyflyru, llai o annibyniaeth a cholli pecynnau gofal sy’n ganolog yn y trafodaethau. Fodd bynnag, siaradodd staff y wardiau hefyd am ddiwylliant gwrth risg, lle mae’r staff, yn enwedig meddygon iau, yn amharod i ddatgan bod claf yn ffit yn feddygol a’i ryddhau oherwydd eu bod yn ofni na fyddai’r claf yn ymdopi cystal gartref. Mae amharodrwydd parhaus i gymryd risgiau mesuredig ac i gydnabod y sgil-effaith sylweddol y mae oediadau cyn rhyddhau yn eu cael ar y llif cleifion a’r system ehangach.

38 Clywsom hefyd sut y gall rheoli disgwyliadau cleifion a theuluoedd fod yn anodd. Esboniodd y staff fod llawer o deuluoedd wedi dychwelyd i’r gwaith ers y pandemig ac nad ydynt yn gallu darparu’r lefel o gymorth yr oeddent yn ei darparu i helpu i ddiwallu anghenion cleifion. Clywsom hefyd am deuluoedd yn gadael cleifion yn yr ysbyty oherwydd eu bod yn mynd ar wyliau. O ganlyniad, roedd sgyrsiau anodd yn digwydd gyda theuluoedd ynghylch disgwyliadau gofal. Yn ystod cyfnodau dwys, clywsom hefyd am staff yn rhyddhau cleifion yn amhriodol heb ystyried eu barn yn llwyr. Clywsom fod atgyfeiriadau hollgynhwysfawr am sawl darparwr a disgyblaeth hefyd yn digwydd er mwyn ceisio dod o hyd i’r llwybr rhyddhau cyflymaf ar gyfer claf, hyd yn oed os nad oedd angen y gwasanaeth ar y claf hwnnw (**Argymhelliad 1**). Nid yw hyn yn ddefnydd cynhyrchiol o amser ac adnoddau.

39 Mae’r rhanbarth wedi bod yn adrodd amrywiad sylweddol yn y defnydd o lety cartref gofal tymor byr heb ei gynllunio. Mae **Arddangosyn 4** yn nodi i ba raddau yr adroddwyd bod oedolion yn cael eu rhoi mewn llety cartref gofal tymor byr heb ei gynllunio am fwy na thri mis wrth iddynt aros am leoliad hirdymor. Ers mis Gorffennaf 2023, mae’r rhanbarth wedi cael rhai o’r niferoedd uchaf o oedolion fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth a roddwyd mewn cartref gofal tymor byr heb ei gynllunio am fwy na thri mis. Mae hyn yn enwedig o wir yng Ngheredigion sydd â’r nifer uchaf ond un yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn wedi ei adrodd fel mater ansawdd data ers hynny, ac ers mis Mehefin 2025, mae nifer yr oedolion fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth wedi lleihau yn sylweddol i lai na dau fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth. Mae hyn bellach yn unol â Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, sydd wedi bod yn weddol isel o’u cymharu â chyfartaledd Cymru.

**Arddangosyn 4: nifer yr oedolion fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth a oedd yn aros mewn llety cartref gofal tymor byr heb ei gynllunio am fwy na thri mis, heb gynllunio dyddiad gorffen (Gorffennaf 2023 – Medi 2025)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# Beth sy'n effeithio ar lif effeithiol ac amserol cleifion allan o'r ysbyty?

40 Mae'r adran hon yn nodi'r materion sy'n effeithio ar y broses o gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol a llif amserol cleifion allan o'r ysbyty ledled y rhanbarth.

41 Canfuom fod **cymhlethdod cynyddol y galw a'r heriau capasiti yn y sector gofal yn effeithio ar y llif cleifion. Mae diffyg polisi rhyddhau safonol, a gwendidau wrth gofnodi, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth hefyd yn arwain at oediadau ychwanegol.**

## Swm a chymhlethdod y galw

42 Canfuom fod **natur y galw yn cynyddu gyda rhagor y bobl y mae angen cymorth arnynt ar gyfer cyflyrau cymhleth megis dementia. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i ddadansoddi a deall data galw yn well er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio a gwneud penderfyniadau.**

43 Erbyn 2043, mae amcanestyniadau poblogaeth presennol Llywodraeth Cymru yn rhagweld cynnydd yng nghyfanswm poblogaeth Gorllewin Cymru i 396,000, a rhagwelir cynnydd yn y rhai sydd dros 65 oed i 124,587 neu 31.5% o gyfanswm y boblogaeth[7]. Wrth i bobl fyw yn hirach, mae cynnydd cydberthynol yn nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor lluosog ac anghenion iechyd cymhleth, ac felly bydd angen iddynt ddibynnu ar wasanaethau iechyd a gofal am gymorth. Mae cynnydd cydberthynol hefyd yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia.

44 Mae Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gorllewin Cymru 2022-27 hefyd yn nodi bod gan Sir Benfro boblogaeth hŷn na Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, ac amcenir y bydd y cynnydd o 33% mewn pobl 85 oed a hŷn erbyn 2030. Mae hyn yn cymharu â 25% ar gyfer Sir Gaerfyrddin a 26% ar gyfer Ceredigion.

45 Mae angen i bartneriaid ystyried swm a chymhlethdod y galw yn y tymor byr a'r hirdymor. Clywsom sut mae rhai cartrefi gofal wedi addasu'r trothwy ar gyfer oedolion â gofal cymhleth. Mae hyn yn golygu bod cael claf â gofal cymhleth i leoliad cynaliadwy yn anoddach ac yn cymryd mwy o amser oherwydd bod llai o leoedd. Mae gan y Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol fynediad at symiau sylweddol o ddata sy'n ymwneud â'r galw. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael gafael ar ddata sy'n darparu gwybodaeth am y galw cyfredol, ond nid yw hyn ar y lefel ronynnog eto i ddeall beth sy'n sbarduno'r galw hwnnw. Hefyd, mae rhestr rhyddhau cleifion cymhleth â llaw a luniwyd gan dimau cyswllt rhyddhau sy'n caniatáu iddynt weld achosion rhyddhau cymhleth fesul safle ysbyty. Mae lle i ddod â'r holl ddata hyn at ei gilydd mewn set data defnyddiol i gipio galw y system gyfan ledled y rhanbarth er mwyn tanategu'r broses o wneud penderfyniadau strategol a gweithredol (**Argymhelliad 2**).

46 Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i wneud mwy o waith ar ragfynegi'r galw mewn gofal brys a gofal mewn argyfwng fel y gwna ar gyfer gofal a gynlluniwyd. Yn dilyn y gwaith a wnaed i sicrhau bod adnoddau cymunedol y maint cywir a oedd yn canolbwyntio ar yr adnoddau sydd eu hangen i hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty, hoffai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr adnoddau mewnol megis meintiau ward ac unedau rhyddhau yn cael eu halinio â'r llwybrau rhyddhau. Er mwyn ceisio mynd i'r afael â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau modelu drwy ddadansoddeg data er mwyn ceisio cadarnhau'r lefel o fanylion y mae ei hangen arno i ragfynegi'r galw. Os bydd yn llwyddiannus, dylai hyn helpu i ddatblygu cynlluniau ac i ddyrannu adnoddau sy'n mynd i'r afael â heriau poblogaeth a ragfynegir. Yr her fydd y capasiti i ddatblygu ac ymgorffori newidiadau tra bod graddfa y galw ar y system mor uchel.

## Capasiti y gweithlu

47 Canfuom fod **heriau capasiti y gweithlu ar draws pob sefydliad yn effeithio ar amseroldeb y broses o gynllunio i ryddhau cleifion, yn enwedig yng**

[7] Crynodeb gweithredol - Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (wwcp-data.org.uk)

**ngwasanaethau cymdeithasol oedolion Sir Benfro, lle fu'r arosiadau am asesiadau gofal cymdeithasol yr uchaf yng Nghymru tan y misoedd diwethaf.**

48 Mae capasiti mwy a mwy o staff sy'n rhan o'r broses cynllunio i ryddhau cleifion yn cael ei estyn oherwydd ffactorau megis cyfraddau swyddi gwag a chyfraddau absenoldeb heb ei gynllunio sy'n uchel. Mae llai o staff naill ai'n arwain at ddibyniaeth ar staff asiantaeth neu at lai o staff parhaol yn ceisio rheoli cleifion sy'n fwyfwy cymhleth a threfnu'r gofal parhaus sydd ei angen arnynt fel y gellir eu rhyddhau. Mae defnydd uchel o staff asiantaeth yn cael effaith anochel ar barhad yn y gweithlu.

49 Mae recriwtio a chadw yn risg gorfforaethol i'r Bwrdd Iechyd mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Ym mis Rhagfyr 2024, roedd y Bwrdd Iechyd yn adrodd 7.4% o swyddi gwag fel canran o gyfanswm ei sefydliad, gyda swyddi gwag meddygol a deintyddol ar 19.1% a swyddi gwag nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer staff cofrestredig a staff cymorth ar 5.2% a 10.7%, yn y drefn honno. Roedd yr holl gyfraddau swyddi gwag yn uwch na chyfartaledd Cymru.

50 Roedd y gyfradd absenoldeb heb ei chynllunio yn 8.5% ar gyfer staff nyrsio a bydwreigiaeth, ac yn 11.6% ar gyfer cynorthwywyr gofal iechyd a gweithwyr cymorth. Roedd y gyfradd absenoldeb heb ei gynllunio ar gyfer staff meddygol yn llawer is, ar 3.1%. Roedd cyfraddau absenoldeb heb ei gynllunio ar gyfer staff nyrsio cofrestredig yn is na chyfartaledd Cymru, ond yn uwch ar gyfer cynorthwywyr gofal iechyd a gweithwyr cymorth, a staff meddygol. Roedd gwariant ar asiantaeth nyrsio ym mis Rhagfyr 2024 ar 4.6% o gyfanswm y bil cyflog nyrsio, yn unol â chyfartaledd Cymru. Ers Awst 2024, mae cyfradd yr asiantaethau nyrsio a ddefnyddir wedi lleihau yn sylweddol, i lawr i 1.9% o gyfanswm y bil cyflog nyrsio erbyn mis Mawrth 2025.

51 Mae recriwtio a chadw hefyd yn ymddangos ar y cofrestrau risg corfforaethol ar gyfer y tri awdurdod lleol. Mae gan Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro risgiau manylach sy'n gysylltiedig â'r gweithlu gofal cymdeithasol sy'n cyfeirio at effaith oedi cyn rhyddhau cleifion ar y sector iechyd.

52 Ym mis Mehefin 2023[8], roedd awdurdodau lleol Gorllewin Cymru yn adrodd rhwng 5% a 7% o swyddi gwag yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, gyda'r gyfradd isaf yn Sir Benfro, a'r awdurdodau lleol eraill yn adrodd 7%. Mae Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro wedi profi brigau mewn swyddi gwag ers mis Ionawr 2023, gan godi i 11% a 10% yn y drefn honno, cyn lleihau eto. Roedd cyfraddau swyddi gwag yng Ngheredigion wedi aros yn sefydlog i raddau helaeth.

53 Mynegodd y tri awdurdod lleol anawsterau wrth recriwtio i swyddi gofal cymdeithasol, yn enwedig gweithwyr gofal cartref, sy'n sefyllfa a waethygwyd gan y pandemig a Brexit. Bu rhai cymhellion ariannol megis cynyddu cyflogau, ond gall sectorau sy'n cystadlu megis manwerthu, gynnig cyflogau tebyg neu uwch. Mae gwahanol brosiectau lleol hefyd sydd â'r nod o gynyddu'r gweithlu gofal

[8] Nid oes unrhyw ddata a adroddwyd ers mis Mehefin 2023.

cymdeithasol naill ai drwy gynnig prentisiaethau neu drwy recriwtio o dramor, er enghraifft yr Academi Gofal. Ond mae'r mentrau hyn yn cymryd amser, ac nid oes yr un ohonynt sy'n ymdrin â phwysau uniongyrchol a chymhleth y broses o recriwtio a chadw staff. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn datblygu ei gynlluniau prentisiaeth ei hun i gynyddu'r gweithlu.

54 Ym mis Ebrill 2025, roedd y gyfradd absenoldeb heb ei gynllunio mewn gwasanaethau cymdeithasol i oedolion[9] yn amrywio rhwng 4%-8%, fel y dangosir yn **Arddangosyn 5**. Mae'r gyfradd yng Ngheredigion wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru ers mis Hydref 2023. Mae'r gyfradd yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru yn gyson, ac eithrio ym mis Rhagfyr 2024 pan gyrhaeddodd y gyfradd yn Sir Benfro ei brig ar 11%.

**Arddangosyn 5: canran yr absenoldeb heb ei gynllunio mewn gwasanaethau cymdeithasol i oedolion (Ebrill 2025)**

| Awdurdod lleol | Absenoldeb heb ei gynllunio |
|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 5 |
| Ceredigion | 8 |
| Sir Benfro | 4 |
| **Cyfartaledd Cymru** | **7.1** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

55 Mae'n anochel bod cyfyngiadau capasiti y gweithlu yn effeithio ar y broses o gynllunio i ryddhau cleifion. Er enghraifft, mae pwysau ar niferoedd nyrsio mewn wardiau yn golygu y cyfyngir ar yr amser sydd ar gael ar gyfer cynllunio i ryddhau yn briodol, a gwaethygir hyn drwy ddefnyddio staff asiantaeth sy'n llai cyfarwydd â phrosesau rhyddhau cleifion. Hefyd, mae'n bosibl na fydd gweithwyr cymdeithasol yn gallu cwblhau asesiadau cleifion yn brydlon. Fel y pwysleisir yn **Arddangosyn 3**, oediadau wrth gwblhau asesiadau nyrsio yw un o'r prif resymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion ledled y rhanbarth, ac roedd hyn yn cyfrif am 10.4% o'r holl oediadau ym mis Ebrill 2025. Mae oedi wrth gwblhau asesiadau gofal cymdeithasol yn cyfrif am 8.1% o'r holl oediadau. Mae oediadau sy'n aros am weithiwr gofal cymdeithasol i gael ei neilltuo yn cyfrif am 1.8% arall o'r holl oediadau. Noda **Arddangosyn 6** y graddau y gall gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ar draws y tri awdurdod lleol fodloni'r galw am asesiadau.

[9] Yn cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol i oedolion yn gyffredinol.

**Arddangosyn 6: nifer yr asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd ac sy'n disgwyl i gael eu cwblhau fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth (Ebrill 2025)**

| Awdurdod lleol | Asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd | Oedolion sy'n aros am asesiad gofal cymdeithasol | % o'r rhai sy'n aros am asesiad gofal cymdeithasol sydd yn yr ysbyty |
|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 415 | 62 | 8.5 |
| Ceredigion | 569 | 218 | 1.5 |
| Sir Benfro | 182 | 280 | 2.8 |
| **Cyfartaledd Cymru** | **238** | **117** | **6.1** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

56 Er gwaethaf yr heriau gweithlu, mae cyfradd yr asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd yn awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae'r arosiadau ar gyfer y ddau awdurdod lleol hyn wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru, er bod yr arosiadau yng Ngheredigion wedi bod yn cynyddu ers mis Awst 2024 ac maent bellach yn ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae cyfradd yr asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd yn Sir Benfro yn is na chyfartaledd Cymru. Mae arosiadau am asesiad gofal cymdeithasol yn Sir Benfro wedi bod yr uchaf yng Nghymru yn gyson, ac yn llawer uwch na nifer yr asesiadau a gwblhawyd, sy'n awgrymu bod y gwasanaeth wedi cael trafferth bodloni'r galw. Fodd bynnag, mae arosiadau yn Sir Benfro wedi bod yn lleihau'n raddol ac yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r perfformiad wedi bod ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

57 Yn gyffredinol, ychydig iawn o'r rhai sy'n aros am asesiad gofal cymdeithasol sy'n meddiannu gwely ysbyty, sy'n awgrymu bod y rhai yn yr ysbyty yn cael eu blaenoriaethu. Mae cyfran uwch o oedolion sy'n aros sydd mewn ysbyty yn Sir Gaerfyrddin o'i chymharu â chyfartaledd Cymru, er bod y gyfran wedi gwella'n sylweddol o 41% ym mis Hydref 2024.

## Capasiti y sector gofal

58 Canfuom fod **capasiti y sector gofal yn amrywio ledled y rhanbarth gyda lefel uchel o ddarpariaeth cartrefi gofal hirdymor, ond prinder o ran gofal cartref, yn enwedig yng Ngheredigion a gofal ailalluogi yn Sir Gaerfyrddin.**

59 Gall argaeledd pecynnau gofal cartref a llety cartref gofal preswyl hirdymor fod yn achosion allweddol o oediadau ledled Cymru wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Yn y rhanbarth, clywsom am faterion capasiti yn y sector gofal cartref a oedd yn effeithio ar y llif cleifion. Clywsom hefyd fod cartrefi gofal wedi dod yn fwy gofalus wrth dderbyn cleifion, oherwydd bod ganddynt yr un heriau gweithlu â'r awdurdodau

lleol a’r Bwrdd Iechyd. Ym mis Ebrill 2025, roedd oediadau wrth aros am ofal cartref neu becynnau ailalluogi, neu gartrefi gofal preswyl a oedd ar gael yn cyfrif am 23.9% o’r holl oediadau.

60 Noda **Arddangosyn 7** nifer yr oedolion sy’n derbyn cymorth yn y sector gofal ac i ba raddau y mae arosiadau am ddarpariaeth. Noda **Atodiad 4** berfformiad y rhestr aros am asesiadau gofal cymdeithasol a phecynnau gofal ers mis Tachwedd 2022.

**Arddangosyn 7: nifer yr oedolion sy’n derbyn (ac yn aros am) becynnau gofal a lleoliadau fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth (Ebrill 2025)**

| Awdurdod lleol | Derbyn gofal cartref[10] (arosiadau) | Derbyn gwasanaeth ailalluogi[11] (arosiadau) | Derbyn llety cartref gofal hirdymor[12] (arosiadau) |
|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 724 (12) | 47 (15) | 701 (5) |
| Ceredigion | 501 (86) | 71 (7) | 674 (7) |
| Sir Benfro | 678 (41) | 37 (6) | 760 (3) |
| **Cyfartaledd Cymru** | **695 (22)** | **63 (8)** | **555 (9)** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

61 Dengys yr arddangosyn fod y ddarpariaeth llety cartref gofal hirdymor yn uwch yn y Gorllewin o’i chymharu â’r darlun yng Nghymru gyfan, gyda’r gyfradd ddarpariaeth uchaf yng Nghymru ar ôl Gwynedd. Mae’r arosiadau am lety cartref gofal hirdymor sydd ar gael ledled y rhanbarth yn is na chyfartaledd Cymru.

62 Yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, mae nifer y bobl sy’n derbyn gofal cartref ledled y rhanbarth yn gymharol â chyfartaledd Cymru, ac mae’r arosiadau yn Sir Gaerfyrddin yn llawer is na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, y ddarpariaeth gofal cartref yng Ngheredigion yw’r isaf ond un yng Nghymru, ac mae’r arosiadau uchaf ond un yn awgrymu nad oes capasiti digonol. Mae cyfradd darpariaeth isel ac arosiadau sydd dros y ffigur cyfartalog hefyd yn dangos nad oes capasiti ailalluogi digonol i fodloni’r galw yn Sir Gaerfyrddin (**Argymhelliad 3**).

63 Dengys **Arddangosyn 8** i ba raddau y mae oriau cartref heb eu llenwi, a nifer yr oriau cyfartalog a ddarperir fesul oedolyn.

[10] Gan gynnwys gofal cartref a ddarperir ac a gomisiynir gan awdurdodau lleol.

[11] Gan gynnwys gwasanaeth ailalluogi a ddarperir gan awdurdodau lleol.

[12] Gan gynnwys llety cartref gofal hirdymor a gomisiynir gan awdurdodau lleol.

**Arddangosyn 8: oriau cartref heb eu llenwi a nifer yr oriau gofal cartref cyfartalog a ddarperir fesul oedolyn, fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth (Ebrill 2025)**

| Awdurdod lleol | Oriau gofal cartref sy'n aros i gael eu llenwi | Oriau cyfartalog fesul oedolyn sy'n derbyn gofal cartref |
|---|---:|---:|
| Sir Gaerfyrddin | 210 | 12.1 |
| Ceredigion | 1,024 | 13.7 |
| Sir Benfro | 345 | 11.4 |
| **Cyfartaledd Cymru** | **230** | **13.1** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

64 Mae'r arddangosyn yn dangos darlun cymysg ledled y rhanbarth. Adroddodd Sir Gaerfyrddin lefel is o oriau gofal cartref heb eu llenwi, ac roedd nifer yr oriau gofal cartref heb eu llenwi yng Ngheredigion yr uchaf ond un yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ledled y rhanbarth yn fwy cadarnhaol nag y bu, ac mae lefel yr oriau heb eu llenwi wedi lleihau yn sylweddol ers y sefyllfa a fodolai ym mis Chwefror 2023 pan oedd cyfradd yr oriau heb eu llenwi yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn 1,061 a 739 o oriau, yn y drefn honno. Mae cymorth gan yr awdurdodau lleol, er mwyn helpu darparwyr preifat gyda chostau hyfforddi, wedi helpu i gynyddu'r capasiti gofal cartref. Er bod cyfradd yr oriau heb eu llenwi yng Ngheredigion wedi gwella ers y sefyllfa a fodolai ym mis Chwefror 2023 (o 1,665 i 590 ym mis Mawrth 2024), mae'r gyfradd wedi bod yn cynyddu'n raddol nes cyrraedd ei brig ym mis Ionawr 2025 ar 1,163.

65 Mae nifer cyfartalog yr oriau gofal cartref a ddarperir fesul oedolyn yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn llai na chyfartaledd Cymru. Er y gallai hyn adlewyrchu'r gofal sydd ei angen ar bobl, gallai fod yn arwydd o broblemau gyda'r cyflenwad gofal cartref hefyd. Efallai y bydd Sir Benfro yn ceisio lledaenu adnodd cyfyngedig yn denau i sicrhau ei bod yn cefnogi cynifer o bobl â phosibl â gofal cartref, ond nid o reidrwydd ar y lefel sydd ei hangen arnynt. Gallai'r nifer uwch o oriau yng Ngheredigion adlewyrchu lefel uwch o anghenion cymhleth, ond gallai adlewyrchu hefyd fod gormod o ofal cartref yn cael ei ragnodi. O ystyried y lefel uchel o oriau heb eu llenwi, y lefel isel o ddarpariaeth a'r lefel uchel o arosiadau, mae angen i'r awdurdod lleol fod yn sicr bod y lefel gofal cartref y mae'n ei darparu fesul oedolyn yn briodol i'w anghenion (**Argymhelliad 4**).

## Y broses o ryddhau cleifion

66 Canfuom fod **gwendidau wrth gymhwyso a dogfennu'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, a waethygir gan hyfforddiant anghyson a diffyg polisi rhyddhau safonol.**

67 Mae cynllunio da i ryddhau yn dibynnu ar gyfathrebu a chydlynu da ar draws gwahanol grwpiau proffesiynol, gan ystyried rhyddhau cyn gynted ag y cyflwynir claf i wasanaethau. Mae cynllunio i ryddhau yn dda hefyd yn cael ei helpu drwy fod â phrosesau sydd wedi eu dogfennu'n glir a rennir â'r holl staff dan sylw er mwyn hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r gwahanol swyddogaethau yn y broses ryddhau.

68 Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd polisi rhyddhau safonol a ymgorfforwyd ar draws y Bwrdd Iechyd. Roedd rhai safleoedd yn defnyddio polisi rhyddhau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn flaenorol ac roedd safleoedd eraill yn datblygu polisi safonol. O ganlyniad, roedd ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth prosesau polisi rhyddhau yn amrywiol, a chanfuom fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn nodiadau achos y cleifion. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â hyn yn dilyn adolygiad o'r broses cynllunio i ryddhau cleifion gyda sicrwydd cyfyngedig gan Archwilio Mewnol, a chafodd chanllawiau rhyddhau newydd eu datblygu a'u cymeradwyo ledled y Bwrdd Iechyd ym mis Ebrill 2025.

69 Nid oes dull cyson o hyfforddi ac yn benodol hyfforddiant ar y cyd. Roedd y staff yn cydnabod bod gofynion hyfforddi i bawb sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion, fel eu bod yn deall y broses, a'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau ym mhob cam yn well **(Argymhelliad 5)**. Er enghraifft, clywsom fod staff clinigol yn addo mwy nag y gellir ei ddarparu o ran pecynnau gofal i rai cleifion y mae'n bosibl na fydd y cleifion hynny yn eu cael neu na fydd eu hangen arnynt. Mae hyn yn effeithio ar ddisgwyliadau cleifion a theuluoedd, a gall oedi'r broses o ryddhau cleifion.

70 Yn gyffredinol, nid oedd gan y nodiadau achos a adolygwyd gennym ddyddiad rhyddhau disgwyliedig o fewn 48 awr o dderbyn y claf i'r ysbyty. Yn aml, nid oedd nodyn am ryddhau'r claf am rai dyddiau ar ôl ei dderbyn i'r ysbyty, a hyd yn oed wedyn, roedd hyn yn amwys: 'parhau i gynllunio'. Nid yw hyn yn rhoi unrhyw arwydd i aelodau eraill o'r staff o'r hyn y dylent ei wneud i gyflymu'r broses. Hefyd, ychydig o gyfeiriad a ganfuom at a oedd teuluoedd cleifion yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i'w rhyddhau. Ni nodwyd bod unrhyw sgyrsiau 'Yr Hyn sy'n Bwysig' wedi digwydd ac amrywiol oedd darllenadwyedd y nodiadau **(Argymhelliad 7)**.

71 Nodwyd hefyd fod rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn dal i fod yn weithgaredd sy'n digwydd ar ddyddiau o'r wythnos i raddau helaeth, ac ychydig iawn o gleifion (achosion syml yn bennaf) oedd yn cael eu rhyddhau ar benwythnosau. Dangosodd ein hadolygiad o sampl o dderbyniadau meddygol brys y Bwrdd Iechyd mai dim ond 11% o gleifion a gafodd eu rhyddhau ar y penwythnos, y mwyafrif ohonynt ar ddydd Sul. Mae hyn oherwydd patrymau gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r ffaith na fydd y mwyafrif o'r darparwyr yn derbyn cleifion newydd yn ystod y penwythnos. Fodd bynnag, roedd canran y cleifion a ryddhawyd ar benwythnosau yr uchaf yng Nghymru.

72 O'u dadansoddi fesul safle, ychydig iawn o gleifion oedd yn cael eu rhyddhau ar y penwythnos yn Ysbyty Bronglais ac Ysbyty'r Tywysog Philip, a dim ond Ysbyty Llwynhelyg oedd yn rhyddhau cleifion ar ddydd Sadwrn. Yn ystod yr wythnos, mae

nifer y cleifion a ryddheir yn cyrraedd y brig ar ddydd Llun yn Ysbytai Bronglais, Glangwili a Llwynhelyg. Mae hyn yn awgrymu y gallai rhai o'r cleifion hyn fod wedi cael eu rhyddhau yn ystod y penwythnos pe byddai gwasanaethau neu staff ar gael. Hefyd, roedd nifer y cleifion a ryddhawyd yn cyrraedd y brig ar ddydd Mawrth yn Ysbyty Bronglais ac Ysbyty'r Tywysog Philip. Nid oedd unrhyw gleifion a ryddhawyd ar ddydd Mercher yn Ysbyty Glangwili.

73 Canfuom hefyd fod gwahaniaethau barn ymhlith staff iechyd a gofal cymdeithasol ynghylch pryd i wneud atgyfeiriad i gefnogi'r broses o ryddhau claf, a gwahaniaethau mewn trefniadau rhwng safleoedd ysbyty ac awdurdodau lleol **(Argymhelliad 6)**. Mae rhai staff gofal cymdeithasol yn cadw rhestrau ar wahân: un ar gyfer cleifion sy'n barod i dderbyn gofal ac un ar gyfer y rhai y maent yn eu brysbennu dro ar ôl tro oherwydd bod staff ward wedi gwneud atgyfeiriad at wasanaethau cymdeithasol yn rhy gynnar. Mae cymhlethdodau o ran gofynion cyfreithiol, asesiadau capasiti meddyliol a darparu ar gyfer dymuniadau y cleifion i gyd yn cyfrannu at wahaniaethau barn ynghylch pryd yw'r amser priodol i atgyfeirio cleifion yn y broses o gynllunio i'w rhyddhau.

74 O ystyried rhai o'r heriau gydag asesiadau gweithwyr cymdeithasol, mae'r rhanbarth wedi bod yn araf wrth ymgorffori'r Model Asesydd Dibynadwy yn llawn. Nid yw'n glir pam nad yw hyn wedi bod yn flaenoriaeth, er mwyn rhyddhau capasiti gweithwyr cymdeithasol a galluogi'r llif cleifion. Mae grŵp gorchwyl a gorffen bellach wedi ei sefydlu, er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen ac ymgymryd ag asesiad gwaelodlin ledled pob ardal awdurdod lleol.

75 Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fodel Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA), sydd â'r nod o gefnogi pobl i adfer gartref cyn cael asesiad ar gyfer unrhyw angen parhaus, gan leihau hyd yr arhosiad yn yr ysbyty. Cyflymodd Llywodraeth Cymru y broses o weithredu'r model yn ystod y pandemig ac ers hynny mae wedi rhoi arian ychwanegol i ranbarthau fel y gallent ymgorffori D2RA ymhellach.

76 Mae data cenedlaethol a anfonwyd i Lywodraeth Cymru wedi dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi profi anhawster wrth ryddhau cleifion i leoliad sy'n addas ar gyfer eu hasesiad, fel yr argymhella D2RA. Roedd cyfrannau uchel o gleifion yn aros i drosglwyddo i lwybrau D2RA. Roedd llawer o'r cleifion hyn yn aros i gael eu rhyddhau i'w cartrefi eu hunain, neu i leoliadau cartref gofal presennol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i geisio gweithredu D2RA fel maes y pwysleisir arno ar gyfer rheoli cymhlethdod. Fodd bynnag, mae tensiwn rhwng y galw presennol a gallu yr awdurdodau lleol i gynnal asesiadau.

## Rhannu gwybodaeth

77 Canfuom fod **problemau o ran cofnodi, cyfathrebu,** a **rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol, sy'n ychwanegu at oediadau.**

78 Yn nodweddiadol, bydd angen i weithwyr proffesiynol sydd mewn ac ar draws sefydliadau rannu gwybodaeth am y claf er mwyn cynorthwyo trefniadau rhyddhau a gofal parhaus, yn enwedig pan fo gan y claf anghenion mwy cymhleth.

79 Er bod cyfarfodydd amlddisgyblaethol a gynhelir, gallai'r safleoedd ysbyty acíwt wneud mwy i ddysgu o arferion da ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae enghreifftiau cadarnhaol o wybodaeth amlddisgyblaethol a rennir ledled y rhanbarth. Mae Ysbyty Glangwili yn ymgymryd â rowndiau ward amlddisgyblaethol sy'n cynnwys partneriaid allweddol, er mwyn rhannu gwybodaeth ac fel y gellir rhyddhau cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys ffisiotherapyddion, gweithwyr cymdeithasol, gofal ac atgyweirio, therapyddion galwedigaethol, ac aelodau o dîm Delta Wellbeing[13]. Mae hyn yn annog atebion cydweithredol a rhannu data, er mwyn helpu'r nod o ryddhau cleifion. I raddau helaeth, gweithwyr iechyd proffesiynol yn unig sy'n bresennol ar rowndiau ward amlddisgyblaethol mewn safleoedd eraill **(Argymhelliad 8)**.

80 Nid yw perthnasoedd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn gyson ledled y rhanbarth ac mae ansawdd yr atgyfeiriadau o iechyd i ofal cymdeithasol yn amrywio. Yn aml, mae staff iechyd yn gweld atgyfeiriadau fel ymarfer ticio blwch ac maent yn anghyflawn yn aml, neu heb unrhyw fanylion, sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithwyr cymdeithasol geisio eglurhad ychwanegol cyn y gallant wneud penderfyniad brysbennu (**Argymhelliad 9).**

81 Nid yw systemau sy'n dal gwybodaeth am gleifion wedi eu cysylltu neu'n weladwy i'r holl staff sy'n ymwneud â gofal cleifion unigol. Mae systemau cofnodi digidol yn llawer mwy integredig yn Sir Gaerfyrddin nag yn Sir Benfro. Er bod Ceredigion wedi gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru[14], nid yw'r lleill wedi mabwysiadu'r system ac er bod y Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu'r system, dim ond mewn llond llaw o wasanaethau y mae wedi ei mabwysiadu (**Argymhelliad 10**). Clywsom fod y staff yn dibynnu'n fawr ar gyswllt personol ag unigolion i gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion, ond bod hyn yn gallu cymryd amser.

82 Mae anghysondebau hefyd yn y ffordd y mae staff ward yn cofnodi gwybodaeth am ryddhau cleifion ar draws safleoedd yr ysbytai acíwt. Mae rhai safleoedd yn defnyddio system Frontier ac mae eraill yn defnyddio byrddau gwyn. Nid yw pob safle yn awyddus i newid i ddulliau digidol o gadw cofnodion. Mae hyn yn effeithio ar y broses o rannu gwybodaeth yn effeithlon ac yn effeithiol, yn fewnol ac ar draws ffiniau sefydliadol **(Argymhelliad 11)**.

83 Mae gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y sector gwirfoddol ynghyd â gwasanaethau cymunedol yn hanfodol i gefnogi'r broses o ryddhau i lawer o gleifion. Felly, mae cynnwys y gwasanaethau hyn yn y broses gynllunio o ryddhau cleifion yn arfer gorau. Fodd bynnag, roedd y ddealltwriaeth o dirwedd y

[13] Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth 24/7 i unigolion a sefydliadau, sy'n hybu ac yn cynnal llesiant ac annibyniaeth yn y cartref, yw Delta Wellbeing.

[14] System sengl a chofnod electronig a rennir i'w ddefnyddio ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau i oedolion a phlant yw System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Y syniad yw y dylai pob un o'r 22 awdurdod lleol a'r saith bwrdd iechyd ei weithredu, gyda'r dyddiad gweithredu arfaethedig cychwynnol ar ddiwedd 2018. Sefydlwyd rhaglen genedlaethol newydd 'Galw Gofal' ym mis Mai 2024 i ddisodli WCCIS o fis Ionawr 2026.

gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty yn dameidiog, sy'n golygu bod cyfleoedd i ryddhau cleifion yn gynharach â chefnogaeth gwasanaethau y tu hwnt i ofal cymdeithasol sy'n cael eu colli. Canfuom fod mynediad at wybodaeth am wasanaethau cymunedol a gwirfoddol yn amrywiol yn aml, a bod diffyg hyfforddiant i ddarparu gwybodaeth i'r staff perthnasol **(Argymhelliad 12)**.

# Pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd?

84 Mae'r adran hon yn ystyried y camau y mae'r sefydliadau statudol yn eu cymryd, gan gynnwys drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, i wella'r llif cleifion allan o'r ysbyty.

85 Canfuom fod y llif cleifion **yn nodwedd allweddol ar draws yr holl bartneriaid rhanbarthol a bod cysylltiadau clir â nodau cenedlaethol mewn cynlluniau strategol, ond bod angen gwaith ychwanegol er mwyn cyflawni cynlluniau yn weithredol. Mae prosiectau lleol yn cael effaith gadarnhaol, ond mae angen eu prif ffrydio i sicrhau y darperir gwasanaethau cynaliadwy, ac mae angen cryfhau'r oruchwyliaeth er mwyn dangos effaith y system gyfan.**

## Cynlluniau strategol a gweithredol

86 Canfuom fod **mynd i'r afael â'r llif cleifion yn nodwedd allweddol o'r cynlluniau ar draws y partneriaid yn unol ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru, ond bod angen gwaith ychwanegol i drosi Cynllun Ardal Gorllewin Cymru yn gyflawniad gweithredol.**

87 Gwnaethom adolygu cynlluniau perthnasol y bwrdd iechyd a'r awdurdodau lleol mewn cysylltiad â chynllunio i ryddhau, a gofal brys a gofal mewn argyfwng yn fwy cyffredinol. Canfuom fod cynlluniau yn y rhanbarth yn gyffredinol yn adlewyrchu dealltwriaeth dda o'r heriau sy'n effeithio ar lif cleifion.

88 Roedd gan Gynllun Blynyddol 2024-25 y Bwrdd Iechyd nod penodol o drawsnewid gofal brys a gofal mewn argyfwng ac o wella'r llif cleifion, yn unol â Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (y Rhaglen Chwe Nod), gan gynnwys cyflwyno llwybrau gofal integredig, defnyddio platfform digidol Frontier yn llawn a chryfhau'r capasiti cymunedol. Nodwyd nodau pwrpasol hefyd ar gyfer pob un o'r siroedd, gan gynnwys agor yr uned asesu bregusrwydd yn Sir Benfro, a gweithredu cymorth i gleifion a ryddheir yn gynnar ar gyfer cleifion strôc yn Sir Gaerfyrddin. Amlinellir y nodau hyn yn fanylach yng nghynlluniau gweithredol y sir. Mae'r strategaethau corfforaethol ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol i gyd yn cyfeirio at yr angen i gefnogi cleifion a ryddheir adref o'r ysbyty yn amserol er mwyn sicrhau bod y rhai y mae angen gofal ysbyty arnynt yn gallu ei gael, a chefnogi pobl i aros yn annibynnol ac yn eu cartrefi eu hunain.

89 Mae Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2023-28 yn nodi'r uchelgais i ddatblygu a gweithredu dull 'Gartref yn Gyntaf' er mwyn darparu system iechyd a gofal integredig i bobl hŷn. Fodd bynnag, nid yw gweithrediad Cynllun Ardal strategol Gorllewin Cymru 2023-28 drwy gynlluniau cyflawni gweithredol yn glir, ac mae

wedi dyddio. Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2023-2028 yw'r cynllun strategol a ddatblygwyd gyda'r Bwrdd Iechyd a'r tri awdurdod lleol fel y bwriadwyd fel dull integredig o gyflawni'r heriau o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Mae blaenoriaethau strategol yn y cynllun cyflawni a chyfeiriadau sy'n cysylltu pob blaenoriaeth strategol â chanlyniadau cenedlaethol. Tanategir hyn gan gynllun cyflawni sy'n cynnwys amcanion sy'n gysylltiedig ag amserlenni (byr, canolig, a hir) a grwpiau cyflawni. Mae rhai cysylltiadau â chynlluniau gweithredu amrywiol, ond mae rhai ohonynt nad ydynt wedi eu datblygu'n ddigonol neu sydd wedi dyddio, sy'n ei gwneud yn anodd gweld sut neu bryd y mae angen cyflawni'r amcanion hyn (**Argymhelliad 13**).

90 Mae gan y Rhaglen Chwe Nod ddau nod sy'n gysylltiedig â gwella'r broses o ryddhau: 'nod pump – gofal yn yr ysbyty a rhyddhau cystal â phosibl o'r adeg pan dderbynnir y claf', a 'nod chwech - dull cartref yn gyntaf a lleihau'r risg o aildderbyn'. Mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Portffolio Chwe Nod (y Cynllun) penodol sydd ar wahân i'w gynllun blynyddol, a chynllun cyflawni blwyddyn ydyw. Mae Cynllun Portffolio Chwe Nod 2025-26 yn nodi'n ddefnyddiol gyflawniadau allweddol o'u cymharu â phob un o'r nodau a reolir trwy bedair ffrwd waith y mae dau ohonynt yn canolbwyntio ar nodau pump a chwech – Gofal Ysbyty Diogel (Ymateb i Gleifion Mewnol) ac Ysbyty yn y Cartref (Ymateb Cartref). Mae'r Cynllun hefyd yn nodi'r effaith ddisgwyliedig, mesurau, a chyflawniadau chwarterol, yn ogystal â thargedau perfformiad i wirio'r cynnydd. Mentrau fel gweithredu egwyddorion SAFER[15] a meini prawf clinigol ar gyfer rhyddhau cleifion yw rhai o'r meysydd y pwysleisir arnynt yn y Cynllun, ond gellir dadlau eu bod yn egwyddorion sylfaenol da ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion ac y dylent fod wedi eu hymgorffori'n llawn eisoes.

91 Mae cadernid yr holl gynlluniau hyn yn cael ei brofi gan y gydnabyddiaeth bod recriwtio, yn enwedig mewn cysylltiad â gwasanaethau ysbyty, yn eithriadol o anodd. Mae Grŵp Cyflawni Trawsnewid Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod hyn yn risg. Mae'r grŵp hefyd yn cydnabod yr angen am uwch-arweinyddiaeth weithredol i sbarduno gweithrediad y cynlluniau.

## Gweithio mewn partneriaeth

92 Canfuom fod **partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i wella'r llif cleifion, er bod cyllid tymor byr yn creu risgiau o ran cyfranogiad y trydydd sector a gall pwysau y system greu diwylliant o fwrw bai nad yw'n fuddiol**.

93 Ar lefel strategol, mae tystiolaeth o ymgysylltu rheolaidd a gweithio mewn partneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd a'r tri awdurdod lleol. Yn ogystal â mynychu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, mae Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol a nifer o Gyfarwyddwyr y Bwrdd Iechyd, ynghyd â chynrychiolwyr y

[15] Gweld, Nod, Llif, Rhyddhau'n Gynnar ac Adferiad

trydydd sector, yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Gweithredol Integredig yn rheolaidd. Mae'r Grŵp Gweithredol Integredig yn cynghori'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar flaenoriaethau ar gyfer integreiddio, yn monitro cynnydd y rhaglenni rhanbarthol, yn defnyddio cyllid rhanbarthol ac yn mynd i'r afael â heriau gweithredol.

94 Adlewyrchodd ein harsylwadau o'r cyfarfodydd fod trafodaethau adeiladol yn digwydd, gyda thystiolaeth glir o gydweithrediad ar eitemau a thrafodaeth dda, gan gynnwys her adeiladol. Gall y rhai sy'n bresennol ddylanwadu ar newid a sbarduno gweithrediad, er ein bod wedi nodi nad oes cynrychiolaeth weithredol ar gyfer gwasanaethau gofal eilaidd. Mae Arweinydd Trawsnewid Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng y Bwrdd Iechyd yn mynychu'r Grŵp Gweithredol Integredig a all ddylanwadu ar y broses o gyflawni'r Rhaglen Chwe Nod, ond ar adeg ein gwaith nid oedd yn gallu gorfodi newid ar lefel weithredol. Hefyd, nid oedd y tri Chyfarwyddwr Sir yn bresennol, er bod rhan sylweddol o'u swyddogaeth yn ymwneud â darparu gwasanaethau cymunedol yn ardaloedd yr awdurdod lleol. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu strwythur gweithredol newydd, ac mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth Grŵp Gofal Clinigol newydd ar gyfer Meddygaeth Cymunedol ac Integredig bellach yn mynychu'r Grŵp Gweithredol Integredig. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth bellach yn Arweinydd Trawsnewid Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng y Bwrdd Iechyd hefyd.

95 Mae darparwyr y trydydd sector yn bartneriaid allweddol yng ngwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ond mae angen trefniadau cyllido tymor hwy ar gyfer gweithgarwch y trydydd sector, er mwyn ymgorffori gweithio mewn partneriaeth a gwella'r llif cleifion. Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ariannu llawer o'r gweithgarwch a gyflawnir gan y trydydd sector mewn cysylltiad â'r llif cleifion, ond nid oes unrhyw gynlluniau i brif ffrydio gweithgareddau. Mae peidio ag ymgorffori gweithgarwch y trydydd sector yn risg y gellid colli gwasanaethau, gan effeithio ar y llif cleifion ymhellach a cholli integreiddiad rhwng partneriaid yn y dyfodol.

96 Yn weithredol, mae perthnasoedd rhwng y staff iechyd a'r staff gofal cymdeithasol yn amrywio. Oherwydd y nifer uchel o gleifion y mae'r broses o'u rhyddhau yn gymhleth sy'n gofyn am fewnbwn amlddisgyblaethol, mae staff iechyd a staff gofal cymdeithasol mewn cysylltiad rheolaidd, a dywedodd llawer wrthym fod ganddynt berthynas gwaith cadarnhaol. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'n gwaith maes, wrth i broblemau gydag oediadau cyn rhyddhau cleifion ddod yn fwy acíwt, fod mwy o densiwn mewn perthnasoedd gwaith. Siaradodd staff am y pwysau y maent yn eu hwynebu i gael cleifion allan o'r ysbyty, a sut y gall hynny arwain at ddiwylliant o fwrw bai rhwng iechyd a gofal cymdeithasol lle yr ystyrir bod gweithiwr proffesiynol arall neu ei sefydliad yn peri'r oedi. Mae'r diwylliant o fwrw bai hwn yn ei dro yn creu natur amddiffynnol a all gael effaith negyddol ar y modd y mae staff yn rhyngweithio â'i gilydd yn ystod y broses o ryddhau cleifion.

## Strwythurau gweithredol

97 Canfuom **er bod newidiadau i strwythur gweithredol y Bwrdd Iechyd wedi helpu i egluro atebolrwydd ac i gefnogi gwelliannau, er nad oedd y Grŵp Strategol Integredig wedi cwrdd eto ar adeg ein harchwiliad**.

98 Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi datblygu Byrddau Rhaglenni Integredig sy'n benodol i flaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a ddatblygwyd o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Un ohonynt yw'r 'Grŵp Cyflawni Trawsnewid Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng' sy'n goruchwylio prosiectau sydd â chysylltiadau clir â'r Rhaglen Chwe Nod. Mae'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn cysylltu â Rhaglen Darparu Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng y Bwrdd Iechyd yn rhan o'i strwythur Grŵp Cyflenwi Ansawdd Integredig, Cyllid a Pherfformiad (IQFPD) sydd hefyd yn goruchwylio Rhaglen Chwe Nod y Bwrdd Iechyd.

99 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru'r strwythur llywodraethu sy'n cefnogi'r Rhaglen Chwe Nod yn ystod 2024-25 fel ei fod yn cynnwys Grŵp Strategol Integredig a Grŵp Gweithredol Integredig sy'n dwyn ynghyd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Grŵp Gweithredol Integredig wedi bod ar waith ers cryn amser, ond nid oedd y Grŵp Strategol Integredig wedi ei sefydlu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

100 Mae'r strwythur gweithredol ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gymhleth, gan ei gwneud yn anodd gweld llinellau cyfrifoldeb clir, ac atebolrwydd yn lleol ac ar draws y gwasanaethau. Roedd pob ardal sirol yn y Bwrdd Iechyd yn sbarduno gweithgarwch sy'n ymwneud â'r llif cleifion mewn gwahanol ffyrdd a chyda lefelau llwyddiant gwahanol. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â hyn, a lansiwyd strwythur gweithredol newydd ym mis Ebrill 2025. Mae'r strwythur newydd yn cynnwys Grŵp Gofal Clinigol ar gyfer Meddygaeth Cymunedol ac Integredig sy'n dwyn ynghyd yr hen strwythurau cyfarwyddiaeth sirol ac ysbytai acíwt sy'n gyfrifol am ofal brys a gofal mewn argyfwng.

## Defnyddio cyllid

101 Canfuom fod **partneriaid yn defnyddio adnoddau ariannol i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, fodd bynnag, nid yw'n glir sut y bydd cyllid ar gyfer prosiectau llwyddiannus yn cael ei brif ffrydio i gyllidebau sylfaenol er mwyn cefnogi newid cynaliadwy yn y dyfodol.**

102 Mae'r rhanbarth yn defnyddio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i gefnogi cynlluniau sydd â'r nod o wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion. Cronfa pum mlynedd Llywodraeth Cymru rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2027 yw'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Nod y gronfa yw sefydlu a phrif ffrydio o leiaf chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig, er mwyn darparu gwasanaeth di-dor ac effeithiol i bobl Cymru. Mae gan ddau gyswllt clir â gwella'r llif cleifion allan o'r ysbyty, sef: Gwasanaethau Adref o'r Ysbyty; ac Atebion ar Sail Llety.

103 Mae disgwyliad clir yng nghanllawiau y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fod partneriaid yn darparu arian cyfatebol ar gyfer prosiectau hyd at 50% erbyn diwedd blwyddyn pump, gyda chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer pob prosiect sy'n meinhau bob blwyddyn er mwyn caniatáu i brosiectau llwyddiannus ddod yn weithrediadau yn ôl yr arfer. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau ariannol y mae'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r disgwyliad o gyllid cyfatebol.

104 Derbyniodd y rhanbarth £15.7 miliwn o arian Cronfa Integreiddio Rhanbarthol yn 2022-23 a £15.8 miliwn yn 2023-24 i gyflawni'r chwe model cenedlaethol. Dyrannodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol oddeutu 40% o'r cyllid (£6 miliwn) yn 2023-24 i'r model Adref o'r Ysbyty, a dyrannwyd 7% arall o'r cyllid (£1 miliwn) i brosiectau i gefnogi'r broses o gyflawni'r model Atebion ar Sail Llety, gan gynnwys gofal camu-i-lawr. Dyrannwyd 10% (£1.6 miliwn) arall o gyllid Cronfa Integreiddio Rhanbarthol i'r model 'Gofal Cymhleth yn Agosach at y Cartref' sy'n cefnogi'r broses o weithredu D2RA yn bennaf.

105 Mae'r prosiectau yn seiliedig ar asesiadau o'r anghenion lleol, gan gynnwys yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad. Goruchwylir y cyllido drwy'r Grŵp Llywio Trawsnewid Cyllid. Mae'r grŵp yn cynnwys arweinwyr newid a thrawsnewid ar draws y cyrff gan gynnwys swyddogion cyllido, ac adroddir y cynnydd i'r Grŵp Gweithredol Integredig.

106 Mae prosiectau presennol yn cynnwys PIVOT (Cynllun Sefydliadau Gwirfoddol Integredig Sir Benfro) sy'n cydlynu prosiectau a gyflawnir gan bartneriaid megis y Groes Goch, a Gofal ac Atgyweirio sy'n gweithio'n agos gyda'r timau rhyddhau cleifion i gynorthwyo'r nod o'u rhyddhau yn gynnar. Nod prosiect CWTCH yng Ngheredigion, sydd hefyd yn cael ei redeg gan y Groes Goch gyda chymorth Gofal ac Atgyweirio, yw atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a chynorthwyo'r nod o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn gynnar. Mae Adroddiad Blynyddol diweddaraf Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru ar gyfer 2023-24 yn cydnabod y prosiect hwn fel 'elfen hanfodol o reoli'r galw o safbwynt yr ysbyty a thimau gofal cymdeithasol.'

107 Bydd angen i bartneriaid fabwysiadu ac ymgorffori'r rhaglenni perthnasol a gefnogir ar hyn o bryd gan gyllid Cronfa Integreiddio Rhanbarthol erbyn 2027. Er bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydnabod hyn, nid yw'n glir pa drefniadau sydd ar waith i integreiddio prosiectau effeithiol i weithrediadau yn ôl yr arfer. Byddai parhau i ddefnyddio cyllid prosiectau ar gyfer prosiectau presennol y tu hwnt i fis Mawrth 2027 yn cyfyngu ar y gallu i wneud defnydd o'r cyllid i gyflwyno cynlluniau newydd ac arloesol eraill i reoli'r galw yn well.

## Craffu a sicrwydd

108 Canfuom mai **cymysg yw'r oruchwyliaeth a'r gwaith craffu ar weithgareddau a gynhelir i wella'r llif cleifion, gyda llawer mwy o oruchwyliaeth yn y Bwrdd Iechyd ac mae lle i wneud gwell defnydd o ganlyniadau wrth ddangos yr effaith.**

109 Gwnaethom adolygu lefel yr wybodaeth y mae pwyllgorau y partneriaid, y Bwrdd a'r Cabinet yn ei chael mewn cysylltiad â'r llif allan o'r ysbyty, a chanfuom ddarlun cymysg. Cyflwynir yr hyn a gyflawnir o'i gymharu â thargedau gofal brys a gofal mewn argyfwng cenedlaethol allweddol ym mhob cyfarfod Bwrdd yn y Bwrdd Iechyd drwy'r Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig. Mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn trafod yr Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig yn fanylach yn y pwyllgor sy'n gyfrifol am berfformiad[16], gyda chefnogaeth cyflwyniadau dwfn cyfnodol ar gyflawni'r Rhaglen Chwe Nod. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn nodi oediadau cleifion ar lefel y Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol, sy'n galluogi'r pwyllgor i ddeall amrywiadau rhanbarthol. Mae tystiolaeth bod aelodau y pwyllgor yn craffu ar y data ac yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf. Mae cynlluniau gweithredu ar waith i geisio mynd i'r afael â'r meysydd lle mae'r oedi mwyaf. Er ei bod yn ddefnyddiol deall y meysydd lle mae oediadau, mae gan y Bwrdd Iechyd gamau gweithredu megis 'sefydlu trefniadau ffurfiol rhwng uwch-swyddogion y GIG a'r ALl'. Mae'r lefel sylfaenol hon o integreiddiad yn syndod oherwydd dylai hyn fod ar waith eisoes. Canfuom gyfeiriad cyfyngedig at y llif cleifion mewn papurau a gyflwynwyd i bwyllgorau a Chabinetau yn y tri awdurdod lleol.

110 Mae Rhaglen Darparu Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng y Bwrdd Iechyd yn darparu adroddiadau diweddaraf manwl ar y cynnydd o'i gymharu â Rhaglen Chwe Nod Llywodraeth Cymru i'r cyfarfodydd Cyflenwi Ansawdd Integredig, Cyllid a Pherfformiad (IQFPD) misol. Sefydlwyd cyfarfodydd IQFPD yn 2024 mewn ymateb i statws uwchgyfeirio y Bwrdd Iechyd. Mae'r cyfarfodydd yn adrodd i'r Tîm Gweithredol. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn darparu statws Coch/Oren/Gwyrdd o'i gymharu â phob gweithgaredd yn y ffrydiau gwaith y nod ynghyd â throsolwg, statws cyflawni cyfredol, risgiau a lliniaru, a'r camau nesaf. Cyflwynir adroddiadau manylach ar gyfer pob ardal awdurdod lleol hefyd sy'n nodi heriau a risgiau penodol ar gyfer pob ardal, a'r hyn a wneir i fynd i'r afael â nhw. Er bod yr adroddiadau hyn yn darparu sylwebaeth ddefnyddiol ar y cynnydd, mae'r gweithgareddau yn yr wybodaeth ddiweddaraf yn cynnwys newidiadau diwylliannol a newid yn y parodrwydd i dderbyn risg glinigol sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion. Mae craffu ar hyn yn darparu cyd-destun defnyddiol i'r materion, ond nid oes unrhyw ganlyniadau mesuradwy i ddangos yr effaith (**Argymhelliad 14**).

111 Cynhaliodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol weithdy ar ddiwedd 2022 er mwyn myfyrio ar ei swyddogaeth a'i gyflawniadau dros y flwyddyn flaenorol ac ystyried ei flaenoriaethau. Un o'r myfyrdodau oedd yr angen i nodi ac osgoi dyblygu ac i ganolbwyntio ar fframwaith canlyniadau. Roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn adlewyrchu bod ganddo lawer o brosiectau, ond bod angen dull sy'n fwy rhaglenol. Mae hyn yn taro deuddeg â'r hyn a welsom yn ystod yr adolygiad ac er bod gwaith craffu a sicrwydd ar lefel prosiectau, mae heriau sylweddol o hyd ar draws y system gyfan, ac mae angen rheolaeth mwy cadarn i sicrhau bod y camau

[16] Cyn 1 Ebrill 2025, y Pwyllgor Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol oedd yn gyfrifol am oruchwylio a chraffu ar berfformiad. O 1 Ebrill 2025, symudodd y cyfrifoldeb am oruchwylio perfformiad i Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad newydd.

a gymerir yn helpu i wella'r llif cleifion. Er bod goruchwyliaeth ar weithgarwch y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y Bwrdd Iechyd, amrywiol yw'r oruchwyliaeth ar lefel awdurdod lleol, yn enwedig mewn pwyllgorau craffu (**Argymhelliad 15**).

## Beth arall y gellir ei wneud?

112 Er bod partneriaid rhanbarthol yn cydnabod yn glir y problemau sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, awydd i fynd i'r afael â nhw gyda'r pwyslais cywir mewn strategaethau a chynlluniau, prosiectau effeithiol a chydberthnasau strategol da, nid yw nifer yr oediadau cyn rhyddhau ledled y rhanbarth wedi lleihau'n sylweddol.

113 Mae ein gwaith wedi canfod bod nifer o gamau eraill y gallai partneriaid eu cymryd a fyddai'n helpu i wella llif amserol ac effeithiol allan o'r ysbyty ledled y rhanbarth a lleihau rhai o'r heriau sy'n wynebu'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Nodir y camau gweithredu hyn yn yr arddangosyn canlynol ac maent yn gydnaws â'r argymhellion a nodir yn gynharach yn yr adroddiad.

**Arddangosyn 9: camau eraill i bartneriaid er mwyn helpu i fynd i'r afael â heriau llif cleifion allan o'r ysbyty**

| | |
|---|---|
| **Rheoli'r galw er mwyn darparu canlyniadau gwell i gleifion** | Byddai **lleihau atgyfeiriadau lluosog** a sicrhau mai dim ond y bobl hynny y mae angen y gwasanaeth arnynt sydd ar restrau aros ar gyfer ailalluogi, pecynnau gofal cartref a gofal preswyl, yn lleihau'r aneffeithlonrwydd sy'n deillio o atgyfeiriadau amhriodol ac yn darparu canlyniadau gwell i gleifion. |
| **Cynllunio ar gyfer y galw cyfredol a'r galw yn y dyfodol** | Byddai **dod â data at ei gilydd** sy'n cipio galw y system gyfan ledled y rhanbarth yn cefnogi'r nod o wneud penderfyniadau strategol a gweithredol mwy effeithiol. |
| **Mynd i'r afael â bylchau allweddol mewn capasiti** | Byddai edrych ar **atebion ar y cyd ar draws sectorau** er mwyn mynd i'r afael â bylchau allweddol megis gofal cartref a gwasanaethau ailalluogi yn galluogi cleifion i gael eu rhyddhau gartref yn fwy amserol.<br><br>Byddai sicrhau bod darpariaeth gartref yn **briodol i'r angen** yn galluogi defnydd mwy effeithiol o adnoddau cyfyngedig. |

| | |
|---|---|
| **Gwella hyfforddiant a chanllawiau** | Byddai cynnig **cyfathrebu a hyfforddiant clir** i bawb sy'n ymwneud â'r llif cleifion, gan gynnwys staff banc ac asiantaeth, yn ogystal â staff newydd sy'n dechrau, yn sicrhau bod canllawiau'n cael eu gwreiddio.<br><br>Byddai sicrhau bod **canllawiau yn gynhwysfawr** yn sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r broses rhyddhau cleifion yn deall yr hyn a ddisgwylir ohonynt. |
| **Gwella'r ansawdd a rhannu gwybodaeth** | Byddai cael gwell **dealltwriaeth o'r ystod o wasanaethau cymunedol** a allai gefnogi'r broses o ryddhau cleifion yn effeithiol ac yn amserol a sut i gael gafael ar hyn yn galluogi'r staff i wneud penderfyniadau mwy gwybodus wrth gynllunio i ryddhau cleifion.<br><br>Byddai cael **gwybodaeth clir a chynhwysfawr** mewn nodiadau achos cleifion, sy'n nodi'r camau a gymerir i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion, yn galluogi dealltwriaeth gliriach o'r hyn sy'n digwydd gyda chlaf gan yr holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofalu am gleifion pan fyddant yn yr ysbyty.<br><br>Byddai **systemau safonol a chydgysylltiedig** sy'n hygyrch i'r holl staff (ni waeth beth fo'u sefydliad) sy'n ymwneud â gofalu am gleifion unigol yn galluogi dulliau cyfathrebu effeithiol ac effeithlon rhwng sefydliadau ac yn cefnogi llif effeithiol allan o'r ysbyty.<br><br>Byddai cael **atgyfeiriadau o ansawdd da** yn galluogi brysbennu mwy effeithiol ac asesiadau mwy amserol i'r rhai y mae angen gofal cymdeithasol arnynt. |
| **Gwella gweithio ar y cyd** | Byddai **cynnwys proffesiynau amlddisgyblaethol** yn fwy mewn rowndiau ward yn cefnogi atebion cydweithredol, a'r broses o rannu gwybodaeth a chynllunio i ryddhau cleifion yn fwy effeithiol. |
| **Gwella goruchwyliaeth a'r effaith** | Byddai cael **cynlluniau gweithredu cynhwysfawr a chyfredol** yn galluogi partneriaid i ddeall sut mae Cynllun Ardal Gorllewin Cymru yn cael ei gyflawni.<br><br>Byddai **canolbwyntio ar ganlyniadau** yn galluogi'r rhai sy'n darparu goruchwyliaeth ac yn craffu i ddeall a yw gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth. |

Byddai sicrhau y **goruchwylir gweithgareddau y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** mewn awdurdodau lleol yn cefnogi gwell dealltwriaeth o gyfraniad y gweithgareddau hynny at wasanaethau craidd a'r cyfraniad ehangach at y llif cleifion.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 10** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Rydym wedi cyfyngu ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau hyn.

**Arddangosyn 10: dulliau archwilio**

| Elfen y dulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Papurau Bwrdd a phwyllgor<br>• cynlluniau gweithredol a strategol sy'n ymwneud â gofal brys a gofal mewn argyfwng<br>• yr wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Chwe Nod a gofal brys a gofal mewn argyfwng i bwyllgorau<br>• gweithdrefnau rhyddhau cleifion a chanllawiau. |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r canlynol:<br>• Y Prif Swyddog Gweithredu<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio<br>• Y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Hirdymor<br>• Rheolwr y Rhaglen Chwe Nod<br>• Cyfarwyddwyr Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin<br>• Rheolwyr Cyffredinol Ysbytai Bronglais, Glangwili a Llwynhelyg<br>• Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, a Phennaeth y Gwasanaethau i Oedolion - Cyngor Sir Penfro<br>• Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, a Phennaeth y Gwasanaethau Integredig – Cyngor Sir Caerfyrddin<br>• Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, a Phennaeth y Gwasanaethau i Oedolion – Cyngor Sir Ceredigion<br>• Rheolwr Rhaglen Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru. |
| Arsylwadau ac Ymweliadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y fforymau canlynol:<br>• Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru<br>• Grŵp Gweithredol Integredig Gorllewin Cymru. |

| Elfen y dulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| | Gwnaethom arsylwi Nyrsys Cyswllt Rhyddhau Cleifion yn Ysbytai Glangwili a Llwynhelyg hefyd. |
| Dadansoddi data | Gwnaethom ddadansoddi'r data cenedlaethol canlynol:<br>• Set ddata gwasanaethau cymdeithasol misol a anfonwyd i Lywodraeth Cymru<br>• Set ddata oediadau cyn rhyddhau misol a anfonwyd i Weithrediaeth y GIG<br>• Data StatsCymru<br>• Dangosyddion y gwasanaeth ambiwlans<br>Gwnaethom ddadansoddi'r data lleol canlynol hefyd:<br>• Data perthnasol a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol<br>• Data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud â'r holl gleifion meddygaeth brys a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 a arhosodd am fwy nac 21 diwrnod (ac eithrio'r rhai a fu farw). |
| Grwpiau pwyslais | Gwnaethom gynnal grwpiau pwyslais gyda'r canlynol:<br>• cynrychiolwyr y trydydd sector<br>• gweithwyr cymdeithasol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion |
| Adolygu nodiadau achos | Gwnaethom adolygu sampl o nodiadau achos yn ymwneud â chleifion meddygaeth brys a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 a arhosodd am fwy nac 21 diwrnod (ac eithrio'r rhai a fu farw). |

# Atodiad 2

## Rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion

### Rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion yn y Bwrdd Iechyd

Mae'r arddangosyn hwn yn nodi'r rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion yn y Bwrdd Iechyd o'u cymharu â'r sefyllfa ledled Cymru.

**Arddangosyn 11: rhesymau dros oedi fel canran o'r holl oediadau (Ebrill 2025)**

| Rheswm dros oedi | Y ganran a oedwyd | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|
| Aros am ddechrau pecyn gofal cymunedol newydd a ariennir gan ofal cymdeithasol | 15.8 | 9.8 |
| Aros am gwblhau'r asesiad nyrsio | 10.4 | 7.1 |
| Aros am asesiad gofal iechyd parhaus | 8.6 | 3.1 |
| Aros am i'r tîm gofal cymdeithasol gwblhau asesiad | 8.1 | 11.6 |
| Aros am i weithwyr proffesiynol perthynol i ofal iechyd gwblhau asesiad | 6.8 | 4.7 |
| Aros am becyn gofal cymunedol ailalluogi | 5.9 | 4.6 |
| Aros am gwblhau'r penderfyniad budd gorau | 3.6 | 3.1 |
| Capasiti meddyliol | 3.6 | 0.7 |
| Y claf/teulu yn dadlau a/neu'n oedi symud i unrhyw gam gofal/cam nesaf y broses o ryddhau'r claf | 3.2 | 2.4 |
| Aros am gartref nyrsio sydd ar gael | 2.7 | 3.1 |
| Nodi cartref preswyl | 2.7 | 1.7 |
| Dim cartref addas – angen tai | 2.7 | 1.5 |
| Aros am gartref preswyl sydd ar gael | 2.3 | 2.9 |
| Oediadau capasiti meddyliol | 2.3 | 0.6 |
| Aros i drefniadau ariannu ei hun gael eu cwblhau cyn lleoli | 1.8 | 2.1 |
| Aros i weithiwr cymdeithasol gael ei neilltuo | 1.8 | 4.1 |
| Oediadau y Llys Gwarchod – ar ôl cais | 1.8 | 1.3 |
| Aros am drefniadau asesu/rhyddhau i'r cartref gofal presennol | 1.4 | 0.4 |
| Aros am nyrsio dementia sydd ar gael | 1.4 | 1.1 |
| Aros am benderfyniad ariannu - gofal nyrsio a ariennir/gofal iechyd parhaus | 1.4 | 2.2 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Noder: pan fo'r rhesymau dros oedi yn ymwneud â dau glaf neu lai, rydym wedi eu hepgor er mwyn lleihau unrhyw risg o adnabod cleifion unigol.

## Y pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fesul awdurdod lleol

Mae'r arddangosion canlynol yn nodi'r pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol o'u cymharu â'r sefyllfa ar draws y Bwrdd Iechyd a ledled Cymru.

**Arddangosyn 12: y pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oediadau (Ebrill 2025) – Sir Gaerfyrddin**

| Rheswm dros oedi | Y ganran a oedwyd | Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|---|
| Aros am ddechrau pecyn gofal cymunedol newydd a ariennir gan ofal cymdeithasol | 23.4 | 15.8 | 9.8 |
| Aros am becyn gofal cymunedol ailalluogi | 10.3 | 5.9 | 4.6 |
| Aros am asesiad gofal iechyd parhaus | 9.3 | 8.6 | 3.1 |
| Aros am i'r tîm gofal cymdeithasol gwblhau asesiad | 7.5 | 8.1 | 11.6 |
| Aros am i weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd gwblhau asesiad | 5.6 | 6.8 | 4.7 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 13: y pum[17] prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl oediadau (Ebrill 2025) – Ceredigion**

| Rheswm dros oedi | Y ganran a oedwyd | Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|---|
| Aros am gwblhau'r asesiad nyrsio | 15.6 | 10.4 | 7.1 |
| Aros am asesiad gofal iechyd parhaus | 9.4 | 8.6 | 3.1 |
| Aros am ddechrau pecyn gofal cymunedol newydd a ariennir gan ofal cymdeithasol | 9.4 | 15.8 | 9.8 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

[17] Roedd pob rheswm arall yn ymwneud â dau glaf neu lai.

**Arddangosyn 14: y pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl oediadau (Ebrill 2025) – Sir Benfro**

| Rheswm dros oedi | Y ganran a oedwyd | Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|---|
| Aros am gwblhau'r asesiad nyrsio | 16.9 | 10.4 | 7.1 |
| Aros am i weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd gwblhau asesiad | 11.7 | 6.8 | 4.7 |
| Aros am i'r tîm gofal cymdeithasol gwblhau asesiad | 10.4 | 8.1 | 11.6 |
| Aros am ddechrau pecyn gofal cymunedol newydd a ariennir gan ofal cymdeithasol | 9.1 | 15.8 | 9.8 |
| Capasiti meddyliol | 9.1 | 3.6 | 0.7 |


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# Atodiad 3

## Perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng


Mae'r arddangosion a ganlyn yn nodi perfformiad y rhanbarth ar draws amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng o'u cymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Ebrill 2022.

**Arddangosyn 15: canran yr ymatebion brys i alwadau coch sy'n cyrraedd o fewn (hyd at a chan gynnwys) wyth munud – targed cenedlaethol o 65%**





Ffynhonnell: StatsCymru

**Arddangosyn 16: amser ymateb canolrifol ar gyfer galwadau oren (munudau) – 50fed canradd – targed cenedlaethol o 20 munud**





Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaethau Ambiwlans

**Arddangosyn 17: canran y trosglwyddiadau ambiwlans o fewn 15 munud mewn adran achosion brys mawr – targed cenedlaethol o 100%**





Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Arddangosyn 18: canran y trosglwyddiadau ambiwlans dros un awr – targed cenedlaethol o sero**





Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaethau Ambiwlans

**Arddangosyn 19: cyfanswm yr oriau a gollwyd yn dilyn hysbysiad i drosglwyddo a gymerodd dros 15 munud**





Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaeth Ambiwlans

**Arddangosyn 20: amser canolrifol (munudau) rhwng cyrraedd adran achosion brys a brysbennu gan glinigwr) – targed cenedlaethol o leihad dros 12 mis**





Ffynhonnell: Adroddiadau perfformiad y Bwrdd Iechyd

**Arddangosyn 21: amser canolrifol (munudau) rhwng cyrraedd adran achosion brys ac asesu gan uwch-wneuthurwr penderfyniadau clinigol – targed cenedlaethol o leihad dros 12 mis**





Ffynhonnell: Adroddiadau perfformiad y Bwrdd Iechyd

**Arddangosyn 22: canran y cleifion sy’n treulio llai na phedair awr mewn adran achosion brys mawr—targed cenedlaethol o 95%**





Ffynhonnell: StatsCymru

**Arddangosyn 23: canran y cleifion sy’n treulio llai na 12 awr mewn adran achosion brys mawr – targed cenedlaethol o 100%**




Ffynhonnell: StatsCymru

**Arddangosyn 24: derbyniadau brys pan fo hyd yr arhosiad yn hwy nag 21 diwrnod, fesul pob 100 o welyau cleifion mewnol – targed cenedlaethol o leihad o 12 mis**





Ffynhonnell: Iechyd a Gofal Digidol Cymru

# Atodiad 4

## Arosiadau am asesiadau gofal cymdeithasol a phecynnau gofal


Mae'r arddangosion canlynol yn nodi perfformiad y rhanbarth gydag arosiadau am asesiad gofal cymdeithasol ac i gael amrywiaeth o becynnau gofal o'u cymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Tachwedd 2022.

**Arddangosyn 25: nifer yr oedolion sy'n aros am asesiad gofal cymdeithasol (fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth)**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 26: nifer yr oedolion sy'n aros am ofal cartref (fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth)**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 27: nifer yr oedolion sy'n aros am wasanaeth ailalluogi (fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 28: nifer yr oedolion sy'n aros am lety gofal cartref hirdymor (fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# Atodiad 5

## Ymateb ar y cyd y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 29: ymateb ar y cyd y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Rheoli'r galw**<br>A1 Er mwyn sicrhau mai dim ond y rhai y mae angen gwasanaeth arnynt sydd ar y rhestrau aros perthnasol, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw ei staff yn rhoi cleifion heblaw'r rhestr aros sy'n berthnasol i'w hanghenion gofal penodol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, yn hytrach na'u | Fe'i trafodwyd yn rheolaidd mewn grwpiau Oedi yn Achos Llwybrau Gofal er mwyn monitro a nodi unrhyw broblemau.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin/Sir Benfro yn cyflwyno'r rhaglen cyfathrebu cydweithredol sydd wedi ei nodi fel arfer da. Mae'n cefnogi gweithio amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, dod o hyd i atebion a risg gadarnhaol. Mae wedi cael effaith gadarnhaol ar unigolion, y broses, a gwybodaeth a | Cyfredol- dylid cynnal adolygiad ym mis Mawrth 2026<br><br>Mae cyfathrebu ar sail cryfder wedi ei gyflwyno - mis Mawrth 2026 yw'r cwblhad arfaethedig. | Rheolwr Cyffredinol/Arweinydd Gwella a Thrawsnewid y Bwrdd Iechyd<br><br>Penaethiaid Gwasanaethau Awdurdodau Lleol/Arweinydd Gwella a Thrawsnewid y Bwrdd Iechyd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| rhoi ar sawl rhestr aros wahanol fel modd o sicrhau eu bod yn cael eu rhyddhau yn gynharach (paragraff 38). | dealltwriaeth rhwng proffesiynau, gan leihau'r dull 'gwasgaru' o ymdrin ag atgyfeiriadau. Mae'r hyfforddiant, a datblygu mentoriaid, yn cael ei gyflwyno ledled y rhanbarth.<br><br>Dyrannu D2RA – datblygu llwybrau penodol ar draws y Bwrdd Iechyd, ee, Llwybr adsefydlu<br><br>Mae canolfannau Cartref yn Gyntaf yn cael eu sefydlu ym mhob sir ac yn sicrhau bod atgyfeiriadau yn cael eu sgrinio a'u cyfeirio'n briodol at y gofal ar ôl rhyddhau cywir. | Cyfredol - i'w adolygu yn fisol<br><br>Cyfredol – Ariennir Cartref yn Gyntaf yn rhannol drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac mae'n cael ei werthuso bob 6 mis | Rheolwr Cyffredinol/Arweinydd Gwella a Thrawsnewid y Bwrdd Iechyd<br><br>Rheolwr Cyffredinol/Penaethiaid y Gwasanaeth/Arweinydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| **Cynllunio ar gyfer y galw cyfredol a'r galw yn y dyfodol**<br>A2 Er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol a gweithredol ar | Mae'r cyfarfodydd Oedi yn Achos Llwybrau Gofal a Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn defnyddio data ac archwiliad dwfn pan fo newidiadau neu | Cyfredol - fel yr uchod, bydd yn cael ei adolygu ym mis Mawrth 2026 | Rheolwr Cyffredinol/Penaethiaid y Gwasanaeth/Arweinydd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| lefel ranbarthol, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol ddatblygu set ddata y gellir ei defnyddio sy'n cipio gwybodaeth am swm a chymhlethdod y galw ar y system gyfan ledled y rhanbarth (paragraff 45). | gynnydd mewn categorïau penodol, er mwyn nodi materion/ atebion.<br><br>Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn datblygu, gyda phartneriaid, borth data a fydd yn ein galluogi i gipio a defnyddio data ar gapasiti a galw y gall y Bwrdd Iechyd a'r tri awdurdod lleol ei ddefnyddio.<br>Ar hyn o bryd, nid oes set ddata integredig sy'n cwmpasu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae cyfyngiadau sylweddol sy'n deillio o lywodraethu gwybodaeth yn cyfyngu ar rannu ac integreiddio data. Mae mynd i'r afael â'r heriau hyn yn gofyn am ddull Cenedlaethol cydgysylltiedig fel y tynnwyd sylw ato yn y Gweithdy Oedi yn Achos Llwybrau Gofal Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cysylltu â CLILC ar eu rhaglen Ddigidol newydd, ac mae un o'r 'pileri' yn ymwneud â systemau data. | Mawrth 2026<br><br>Cyfredol - dylid cynnal adolygiad ym mis Ionawr 2026 | Gwella a Thrawsnewid y Bwrdd Iechyd<br><br>Rheolwr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol/Arweinydd perfformiad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol<br><br>Arweinwyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| **Mynd i'r afael â bylchau allweddol mewn capasiti** | | | Penaethiaid y Gwasanaeth/Arweinydd |

| Argymhelliad | | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A3 | Fel y gellir rhyddhau cleifion i'w cartrefi eu hunain mewn modd mwy amserol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu atebion ar y cyd i fynd i'r afael â bylchau allweddol yng nghapasiti y gwasanaeth, yn benodol, gofal cartref a gwasanaethau ailalluogi (paragraff 62). | Mae cyfathrebu cydweithredol yn cael ei gyflwyno ar draws awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Grantiau Oedi yn Achos Llwybrau Gofal a ddefnyddir ym mhob ardal i gynyddu'r capasiti mewn gofal cartref, gwaith cymdeithasol ac asesu ac ailalluogi therapi Galwedigaethol. Ee, yng Ngheredigion cynlluniau cymhelliant ar gyfer derbyn gofal Cartref, a dulliau Technoleg o gefnogi'r nod o ryddhau cleifion yn gynnar. Mae Sir Gaerfyrddin yn treialu dulliau newydd megis gwelyau asesu cymhleth hirdymor a deallusrwydd artiffisial yn ogystal â chynyddu'r capasiti i asesu. Ym mis Ionawr, bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried achos busnes dros gyflwyno a chynnal gwaith saith diwrnod yr wythnos.<br><br>Atal blaenoriaethau a mentrau datgyflyru ar draws y system. | Fel yr uchod - Mawrth 2026<br><br>Mae grantiau Oedi yn Achos Llwybrau Gofal wedi eu dyrannu'n ddiweddar ac felly nid oes dyddiad cwblhau wedi ei gadarnhau. Mae'r gwaith recriwtio wedi dechrau i gefnogi'r mentrau. Dylid cynnal adolygiad ym mis Ionawr 2026 | Gwella a Thrawsnewid y Bwrdd Iechyd<br><br>Penaethiaid y Gwasanaeth<br><br>Penaethiaid y Gwasanaeth/Arweinydd Gwella a Thrawsnewid y Bwrdd Iechyd/Arweinwyr Gofal Ysbyty Diogel |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A4 Er mwyn sicrhau y defnyddir adnoddau cyfyngedig yn effeithiol, dylai Cyngor Sir Ceredigion sicrhau bod yr oriau sy'n uwch na'r cyfartaledd a ddarperir fesul oedolyn sy'n derbyn gofal cartref yn briodol i'w hanghenion (paragraff 65) | Grant Oedi yn Achos Llwybrau Gofal - cynnydd o ran asesu ac ailalluogi. Canolbwyntio ar ddull therapiwtig ar draws galluogi a gofal cartref gan sicrhau bod pecynnau o'r maint cywir mewn modd amserol. Mae rhaglen waith ehangach yn cael ei chynnal er mwyn adolygu'r holl becynnau gofal a chynlluniau gofal a chymorth i sicrhau bod y pecynnau yn gymesur â lefel yr angen. Mae pwyslais ehangach yng Ngheredigion, a ledled y rhanbarth ar atal, cymorth cynnar, technoleg a phecynnau gofal cymesur, sy'n golygu ein bod yn gweld y rhai mwyaf cymhleth yn dod drwodd ar gyfer gofal cartref sy'n gofyn am nifer llawer uwch o oriau i ddiwallu'r anghenion a aseswyd. | Cyfredol - fel yr uchod. Dylid cynnal adolygiad ym mis Ionawr 2026 | Penaethiaid y Gwasanaeth |
| **Datblygu ac ymgorffori polisïau**<br>A5 Er mwyn ymgorffori dull cyson o gynllunio i ryddhau cleifion, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau ar waith i gyfleu canllawiau cynllunio i ryddhau i'r holl staff iechyd a gwasanaethau | Mae cyfathrebu cydweithredol yn cael ei gyflwyno ledled y rhanbarth.<br><br>Grantiau Oedi yn Achos Llwybrau Gofal a ddefnyddir ym mhob ardal i gynyddu'r capasiti mewn gofal cartref, gwaith cymdeithasol ac asesu | Mawrth 2026<br><br>Fel yr uchod - dylid cynnal adolygiad ym mis Ionawr 2026 | Penaethiaid y Gwasanaeth/Arweinydd Gwella a Thrawsnewid y Bwrdd Iechyd<br><br>Penaethiaid y Gwasanaeth |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| cymdeithasol perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio dros dro. Dylai'r broses o gyflwyno canllawiau gael ei chefnogi gan raglen hyfforddiant gloywi parhaus a hyfforddiant cynefino ar gyfer staff newydd (paragraff 69). | ac ailalluogi therapi galwedigaethol. Hefyd, yng Ngheredigion, cynlluniau cymhelliant ar gyfer derbyn gofal cartref, a dulliau technoleg i gefnogi'r nod o ryddhau cleifion yn gynnar. | | |
| | Yng Ngorllewin Cymru, mae gennym swyddi integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. O safbwynt iechyd, mae gennym brosesau ar waith i gefnogi proses safonol ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae prosesau cyfathrebu y cytunwyd arnynt gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r pecyn cymorth i ryddhau cleifion ar-lein yn fyw. Mae'n cynnwys adnoddau a chanllawiau allweddol i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, ac mae ar gael i staff iechyd ac integredig drwy blatfform mewnol SharePoint. Fodd bynnag, mae mynediad at ofal cymdeithasol yn dal i fod yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau platfform. | Cyfredol - dylid cynnal adolygiad ym mis Mawrth 2026 | Penaethiaid y Gwasanaeth/Arweinydd Gwella a Thrawsnewid y Bwrdd Iechyd |
| | Mae fideos hyfforddi yn cael eu datblygu er mwyn cefnogi dealltwriaeth ymhellach a rhoi'r cynlluniau rhyddhau cleifion ar waith. Bydd y fideos yn darparu canllawiau ymarferol ac yn atgyfnerthu'r arferion gorau. | Cyfredol - dylid cynnal adolygiad ym mis Mawrth 2026 | Rheolwr Cyffredinol/Arweinydd Gwella a Thrawsnewid y Bwrdd Iechyd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A6 Er mwyn rhoi eglurder i'r holl staff ynghylch sut y dylai'r broses atgyfeirio am ofal cymdeithasol weithio ledled y rhanbarth, dylai'r Bwrdd Iechyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, sicrhau bod y canllawiau newydd ar gynllunio i ryddhau cleifion yn nodi'n glir ar ba gam o'r broses cynllunio i ryddhau y dylid gwneud atgyfeiriadau am ofal cymdeithasol (paragraff 73). | Ceredigion – Bydd gweithwyr cymdeithasol newydd yn yr ysbyty yn cefnogi'r broses o ymgorffori'r canllawiau ar gynllunio i ryddhau cleifion mewn cydweithrediad â chydweithwyr y Bwrdd Iechyd. Bydd sgyrsiau cynnar a chyfleoedd i ystyried cyfleoedd i atal, a chymorth cynnar, yn lleihau atgyfeiriadau ffurfiol am ofal cymdeithasol.<br>Mae gan Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro dimau gwaith cymdeithasol ysbyty, ac mae gan bob awdurdod lleol un pwynt mynediad ar gyfer atgyfeiriadau gwaith cymdeithasol ysbyty.<br>Fel rhanbarth, rydym yn rhan o broses atgyfeirio sengl Cymru Gyfan a fydd ar gyfer pob awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd | Cyfredol - byddwn yn adolygu recriwtio ac effaith ym mis Ionawr 2026 | Penaethiaid y Gwasanaeth |
| **Gwella ansawdd y broses o gadw cofnodion**<br>A7 Er mwyn gwella ansawdd yr wybodaeth a gynhwysir mewn nodiadau achos cleifion, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl staff sy'n | Mae Polisi 195, Cadw Cofnodion Clinigol (2023) y Bwrdd Iechyd ar waith i ddarparu safonau proffesiynol a sefydliadol clir ar gyfer cadw cofnodion yn effeithiol ac mae'n rhaid i bob aelod o staff clinigol gadw ato. Gyda'r nod y bydd y safonau hyn yn galluogi gwybodaeth byw, cywir, | Cyfredol - archwilio ac adolygu rheolaidd | Y Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf/Rheolwr Cyffredinol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion yn deall yn llwyr bwysigrwydd dogfennu gwybodaeth yn gynhwysfawr mewn nodiadau achos cleifion, a dylai hefyd weithredu rhaglen o archwiliadau nodiadau achos sy'n canolbwyntio ar ansawdd y broses o gadw cofnodion (paragraff 70). | cyfredol a chynhwysfawr am y gofal a ddarperir i'n cleifion.<br><br>Mae ein tudalen SharePoint bellach yn cynnwys pecyn cymorth sy'n briodol yn benodol ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mae ein polisi rhyddhau ar draws y sefydliad a lansiwyd yn 2025 yn elfen o hyn. Mae hyn yn darparu platfform lle bydd y perfformiad yn cael ei fonitro a'i archwilio.<br><br>Mae hyfforddiant cynllunio i ryddhau cleifion bellach ar gael drwy becyn e-ddysgu hefyd ac mae'n mynegi pwysigrwydd dogfennaeth gywir. Yr uchelgais yw y bydd hyn yn arwain at ddull llawer mwy cyson ar draws pob proffesiwn.<br><br>Mae'r broses o adrodd y perfformiad wedi newid yn sylweddol yn unol â modelau a rhaglenni cenedlaethol newydd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi platfform digidol ar waith er mwyn helpu i reoli'r broses o ryddhau cleifion yn well a sicrhau yr archwilir dogfennaeth, gan sicrhau ei bod yn cydymffurfio. | | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gwella rowndiau ward amlddisgyblaethol**<br>A8 Er mwyn annog atebion cydweithredol i'r prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a rhannu data, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod gweithwyr proffesiynol perthnasol o bartneriaid allweddol, sy'n gallu rhannu gwybodaeth a galluogi cleifion i gael eu rhyddhau yn effeithlon, yn bresennol ar rowndiau ward amlddisgyblaethol perthnasol ym mhob safle ysbyty acíwt, fel sy'n digwydd yn Ysbyty Glangwili. Gallai hyn gynnwys ffisiotherapyddion, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, gofal ac atgyweirio neu weithwyr | Mae'r cyfarfodydd hyn eisoes ar waith ar draws ôl troed y Bwrdd Iechyd, ac mae cyflwyno cyfathrebu cydweithredol yn cefnogi diwylliant o rannu gwybodaeth a risg a rennir cadarnhaol.<br><br>At rowndiau bwrdd y mae 'llif gorau posibl' yn cyfeirio, nid rowndiau ward. Mae cynrychiolaeth tîm amlddisgyblaethol ar rowndiau y bwrdd, ond mae hyn yn gyfyngedig oherwydd heriau gweithlu sy'n cyfyngu ar bresenoldeb. Cynhelir archwiliadau o rowndiau bwrdd *ad hoc*.<br><br>Er mwyn cryfhau cyfathrebu cydweithredol a gweithio ar y cyd ar draws timau amlddisgyblaethol, mae'r Bwrdd Iechyd, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, wedi lansio rhaglen hyfforddi integredig a gynlluniwyd i ddod â gweithwyr proffesiynol o iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd. Nod y rhaglen hon yw meithrin dealltwriaeth a rennir o'r prosesau cynllunio i ryddhau cleifion, hybu arferion cyson, a gwella cydlyniant rhwng gwasanaethau. | Cyfredol<br><br>Cyfredol - adolygiad ym mis Ebrill 2026 ar ôl cyflwyno'r hyfforddiant.<br><br>Cyfredol - dylid cynnal adolygiad ym mis Ebrill 2026 | Penaethiaid y Gwasanaeth/ Rheolwr Cyffredinol<br><br>Penaethiaid y Gwasanaeth/ Rheolwr Cyffredinol<br><br>Arweinydd Gwella a Thrawsnewid y Bwrdd Iechyd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| proffesiynol perthnasol eraill (paragraff 79). | Mae proses uwchgyfeirio ar waith ledled y rhanbarth ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion mewn achosion cymhleth, gan gynnwys timau amlddisgyblaethol amlbroffesiwn.<br><br>Mae gan bob awdurdod lleol gyfarfodydd uwchgyfeirio. Ee, mae Ceredigion yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion iechyd a gofal cymdeithasol allweddol yn wythnosol (neu'n amlach os oes angen), er mwyn rheoli uwchgyfeiriadau a chynllunio arferol i gefnogi'r nod o ryddhau cleifion yn gynnar a sicrhau bod gofal priodol ar gael pan fyddant yn cael eu rhyddhau. | Cyfredol - dylid cynnal adolygiad ym mis Mawrth 2026<br><br>Cyfredol - adolygiad ym mis Ebrill 2026 i gwmpasu effaith cynllun Oedi yn Achos Llwybrau Gofal | Penaethiaid y Gwasanaeth/ Rheolwr Cyffredinol<br><br>Penaethiaid y Gwasanaeth |
| **Gwella ansawdd atgyfeiriadau am ofal cymdeithasol**<br>A9 Er mwyn galluogi gweithwyr cymdeithasol i frysbennu cleifion yn effeithiol yn ystod y cam atgyfeirio, dylai'r Bwrdd Iechyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, wella cyflawnrwydd yr atgyfeiriadau am ofal | Bydd y grant Oedi yn Achos Llwybrau Gofal, a ddyfernir i bob awdurdod lleol, yn cynyddu'r capasiti i asesu sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol ychwanegol ac aseswyr eraill, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a'r rhaglen aseswyr dibynadwy.<br>Mae cyfathrebu cydweithredol yn cefnogi'r broses o rannu dysg a gwybodaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. | Cyfredol - mae'r gwaith recriwtio yn debygol o gael ei gwblhau gydag adnoddau ychwanegol ar waith erbyn Ch4 2025/26 | Penaethiaid y Gwasanaeth<br><br>Penaethiaid y Gwasanaeth/Arweinydd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| cymdeithasol gan staff y ward (paragraff 80) | Nodi beth yw atgyfeiriad 'da' a gweithio gyda chydweithwyr i nodi hyn - mae hyn yn rhan o'r asesydd dibynadwy a'r cymwyseddau. | Cyfredol - dylid cynnal adolygiad ym mis Mawrth 2026<br><br>Fel yr uchod | Gwella a Thrawsnewid y Bwrdd Iechyd<br><br>Penaethiaid y Gwasanaeth/ Rheolwr Cyffredinol |
| **Gwella'r broses o rannu gwybodaeth**<br>A10 Er mwyn sicrhau y rhennir gwybodaeth yn effeithiol, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol weithredu ffyrdd o rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau, gan gynnwys cyfleoedd i ddarparu mynediad amlasiantaethol at fynediad presennol at systemau sefydliadol ac yn y pen draw atebion TG ar y cyd (paragraff 81). | Mae atebion TG ar y cyd, y gallu i ryngweithredu a rhannu gwybodaeth yn fater cenedlaethol ac mae'n un o 'bileri' trawsnewid digidol CLILC. Mae arweinwyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod yn cyfarfod â'r arweinydd Digidol er mwyn nodi sut y gall y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gefnogi a hwyluso'r gwaith hwn.<br><br>Y gallu i ryngweithredu rhwng systemau cenedlaethol ee, Cofnod Gofal Nyrsio Cymru, Porth Clinigol Cymru, Eclipse.<br><br>Ar hyn o bryd, nid oes ateb TG integredig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae cyfyngiadau | Cyfredol - dylid cynnal adolygiad ym mis Mawrth 2026<br><br>Cyfredol - dylid codi'r mater mewn fforymau priodol megis cyfarfodydd | Arweinydd CLILC/y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol<br><br>Arweinwyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | sylweddol sy'n deillio o lywodraethu gwybodaeth yn cyfyngu ar rannu ac integreiddio data. Mae mynd i'r afael â'r heriau hyn yn gofyn am ddull Cenedlaethol cydgysylltiedig fel y tynnwyd sylw ato yn y Gweithdy Oedi yn Achos Llwybrau Gofal Cenedlaethol.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i Bartneriaeth Ddigidol 10 mlynedd gyda CGI a fydd yn cefnogi trawsnewid digidol ar draws nifer o feysydd allweddol yn y Bwrdd Iechyd a bydd yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol. | rhanbarthol y system gofal cymunedol integredig a gynhelir pob deufis a chyfarfodydd cadeirydd/ gweinidog y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a gynhelir pob chwarter | |
| A11 Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws safleoedd ysbyty acíwt, dylai'r Bwrdd Iechyd gymhwyso dull safonol o gofnodi gwybodaeth am ryddhau cleifion ar wardiau ysbyty, gan ddefnyddio atebion digidol (paragraff 82). | Ar hyn o bryd, Frontier yw'r system ddigidol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei defnyddio i gipio data cleifion. Mae'r platfform hwn yn cofnodi dangosyddion y llif ysbyty gorau posibl sy'n cefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol, gan gynnwys statws ffitrwydd meddygol, camau Red2Green, a dyraniad llwybr Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA). | Cyfredol - fe'i hadolygir yn fisol yn rhan o lywodraethu Oedi yn Achos Llwybrau Gofal | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol y Bwrdd Iechyd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Y mis nesaf, mae'r Bwrdd Iechyd yn symud drosodd i system cipio digidol cleifion newydd.<br><br>Mae cynrychiolaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng nghyfarfodydd cynllunio i ryddhau Hyd Arhosiad, er mwyn rhannu a chofnodi gwybodaeth am ryddhau cleifion. | Cyflwyno e-ffurflen – Tachwedd 2025<br><br>Adolygwyd yn rhan o gyfarfod misol Oedi yn Achos Llwybrau Gofal | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol y Bwrdd Iechyd<br><br>Rheolwr Cyffredinol /Penaethiaid y Gwasanaeth/Arweinydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| A12 Er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau yn gynharach â chymorth gan wasanaethau y tu hwnt i ofal cymdeithasol yn cael eu colli, dylai'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol sicrhau bod gan yr holl staff perthnasol ar draws pob sefydliad fynediad rheolaidd at yr wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau sydd ar gael | Ceredigion – Bydd gweithwyr cymdeithasol newydd yn yr ysbyty yn cefnogi'r broses o ymgorffori'r canllawiau ar gynllunio i ryddhau cleifion mewn cydweithrediad â chydweithwyr y Bwrdd Iechyd. Bydd sgyrsiau cynnar a chyfleoedd i ystyried cyfleoedd i atal, a chymorth cynnar, yn lleihau atgyfeiriadau ffurfiol am ofal cymdeithasol. Mae rhwydweithiau cymunedol integredig yn tynnu unigolion sy'n adnabod eu cymuned.<br><br>Mae swyddogion Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar y wardiau yn Sir Gaerfyrddin (y fyddin Las) yn cefnogi anghenion ar lefel is er mwyn deall yr hyn sydd ar gael yn y gymuned a gweithio yn rhan o'r timau ward a'r drysau ffrynt. | Cyfredol - i fod yn rhan o adolygiad grant Oedi yn Achos Llwybrau Gofal fel yr uchod | Penaethiaid y Gwasanaeth |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| yn y gymuned sy'n cefnogi'r nod o ryddhau cleifion o'r ysbyty (paragraff 83). | Sir Benfro - aseswyr gofal – sy'n ceisir eu datblygu yn gysylltiedig â phob ward drwy grant Oedi yn Achos Llwybrau Gofal. | | |
| **Datblygu cynlluniau gweithredu Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2023-28**<br>A13 Er mwyn cryfhau'r broses o gyflawni amcanion cynllunio tymor canolig, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod y cynlluniau gweithredu sy'n tanategu Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2023-28 wedi eu datblygu'n llawn a'u bod yn gyfredol (paragraff 89) | Cynhelir Grŵp Cyflenwi Oedi yn Achos Llwybrau Gofal misol gyda phresenoldeb gweithredol gan iechyd a gofal cymdeithasol. Un eitem sefydlog ar yr agenda yw'r Cynllun Gweithredu Oedi yn Achos Llwybrau Gofal Rhanbarthol sy'n cwmpasu mentrau Grant Trawsnewid Oedi yn Achos Llwybrau Gofal awdurdodau lleol. Mae'r grŵp yn adolygu cynnydd a statws y cynllun gweithredu, ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno i'r tîm cenedlaethol bob chwarter at ddibenion monitro ac adrodd. | Cwblhawyd | Penaethiaid y Gwasanaeth/Arweinydd Gwella a Thrawsnewid y Bwrdd Iechyd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gwella gwaith craffu**<br>A14 Er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddangos yr effaith, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni o'i gymharu â'r Rhaglen Chwe Nod yn cynnwys y canlyniadau disgwyliedig (paragraff 110). | Mae Rhaglen Chwe Nod Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng bellach yn adrodd ar fetrigau manwl yng nghyfarfodydd IQFPD ac Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig bob mis. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar fetrigau ymyrraeth wedi eu Targedu ar gyfer Trosglwyddiadau Ambiwlans, amseroedd aros mewn adrannau achosion brys, amseroedd asesu adrannau achosion brys ac Oedi yn Achos Llwybrau Gofal. Hefyd, darperir gwybodaeth am ryddhau cleifion cyn hanner dydd a metrigau Hyd arhosiad. Cyflwynir yr holl wybodaeth gydag esboniad o'r statws cyfredol a'r camau cywiro sy'n ymwneud â'r metrig unigol. | Cyfredol - mae hyn yn cael ei adrodd a'i adolygu yn fisol | Arweinydd y Chwe Nod |
| A15 Er mwyn cryfhau'r gwaith craffu a'r oruchwyliaeth, dylai'r awdurdodau lleol sicrhau bod y pwyllgor mwyaf priodol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am weithgareddau y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n | Mae llywodraethu cadarn ar waith, gan gynnwys grwpiau cyflawni Oedi yn Achos Llwybrau Gofal, nodau Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng/6 nod, a'r grwpiau cyflawni ac arwain sydd newydd eu sefydlu mewn ymateb i hunanasesiad cynllunio y gaeaf.<br><br>Cydnabyddir bod angen i'r awdurdodau lleol graffu a goruchwylio gweithgareddau y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (gan gynnwys y llif | Rhagfyr 2025 | Arweinwyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| gysylltiedig â'r llif cleifion (paragraff 111). | cleifion) yn fwy rheolaidd, a chynigiwyd yr wybodaeth ddiweddaraf bob 6 mis i Bwyllgor Craffu pob awdurdod lleol - mae angen cytuno ar ddyddiadau. | | |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.